

Datganiad o Risgiau, Cryfderau a Gwendidau a Chynllun Sicrwydd Drafft 2017/18



Cynnwys

1	CYFLWYNIAD.....	4
1.1	Ynglŷn â'r ddogfen hon	4
1.2	Sut i ymateb	5
2	CEFNDIR A CHYD-DESTUN	6
3	EIN DULL A'R HYN YR YDYM YN CEISIO EI GYFLAWNI.....	7
4	EIN DULL SICRWYDD DATA.....	8
4.1	Egwyddorion sicrwydd cadarn	8
4.2	Perchnogaeth ac atebolrwydd clir	9
4.3	Llywodraethu effeithiol.....	9
4.4	Tryloywder ac atebolrwydd i'r cyhoedd	10
5	DIWYLLIANT EIN CWMNI.....	11
6	PWYSIGRWYDD YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID	13
7	PROSES ASESU RISG A GWERTHUSO RISGIAU, CRYFDERAU A GWENDIDAU.....	14
7.1	Ein hasesiad o risgiau ansawdd data.....	14
7.2	Canlyniadau o asesu'r effaith o risgiau ansawdd data.....	14
7.3	Dull asesu'r tebygolrwydd o risgiau ansawdd data.....	15
8	DATGANIAD O RISGIAU, CRYFDERAU A GWENDIDAU	16
8.1	Gwasanaethau datblygwyr.....	18
8.2	Marchnad Manwerthu Busnes.....	19
9	CYNLLUN SICRWYDD DRAFFT.....	21
9.1	Adroddiad Perfformiad Blynnyddol 2017/18.....	21
9.2	Mesurau Perfformiad (Cymhelliant i Gyflawni)	24
9.3	Adrodd Cylchrannol.....	25
9.4	Rhestr Brisiau	26
9.5	Cyhoeddiadau ar y Wefan	27
9.6	Meysydd Newydd wedi eu cynnwys	29
9.6.1	Data Asesu Costau.....	29
9.6.2	Cynllun Busnes Adolygiad Prisiau 2019 ac argymhellion cysylltiedig	31
9.6.3	Gwybodaeth am y Farchnad Bioadnoddau	33
9.6.4	Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a Gwybodaeth am y Farchnad	34
9.6.5	Adrodd Ariannol Statudol	36
9.6.6	Cyfoeth Naturiol Cymru – Tablau Cydymffurfio (MD109)	37
9.6.7	Perfformiad, Arferion a Pholisïau Talu.....	39
10	CAMAU NESAF.....	40
ATODIAD 1	Matrics Risg Effaith a Thebygolrwydd – Mesuriadau Perfformiad	41
ATODIAD 2	Matrics Risg Effaith a Thebygolrwydd – Tablau Asesu Cost.....	42
ATODIAD 3	Matrics Risg Effaith a Thebygolrwydd – Gweithgareddau Eraill	43

Pwy ydym ni

Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) yw'r chweched cwmni mwyaf o'r deg cwmni dŵr a dŵr gwastraff a reoleiddir yng Nghymru a Lloegr. Ein prif gyfrifoldeb yw darparu glanweithdra a dŵr yfed sy'n ddiogel a dibynadwy i'r 3.2 miliwn o bobl a wasanaethir gennym ar draws y rhan fwyaf o Gymru, Swydd Henffordd a rhannau o Lannau Dyfrdwy. Rydym yn darparu gwasanaeth hanfodol i'r cyhoedd ac, fel gwarcheidwaid y diwydiant dŵr yn ein hardal, rydym yn gyfrifol am ddiogelu'r amgylchedd a darparu gwasanaeth o ansawdd uchel a dibynadwy i'n cwsmeriaid.

Ein gweledigaeth

Mae'n rhaid sicrhau ymddiriedaeth cwsmeriaid ein bod yn darparu'r gwasanaethau hanfodol sy'n ddiogel ac o'r ansawdd uchaf. Gwyddom y dibynnir arnom i wneud y peth iawn ar eu rhan. Dyma pam yr ydym yn rhoi'r cwsmeriaid yn gyntaf. Y nhw sy'n ganolog i bopeth a wnawn.

Byddwn yn ennill ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd drwy ddarparu gwasanaethau hanfodol o ansawdd uchel sy'n diogelu iechyd ein cwsmeriaid, ein cymunedau a'r amgylchedd o'n cwmpas.

Ein gwerthoedd

Rydym yn falch o roi ein cwsmeriaid n gyntaf. Rydym yn anelu at ragoriaeth ym mhopeth yr ydym yn ei wneud. Rydym bob amser yn agored i syniadau newydd ac yn herio ein hunain i ddod o hyd i ffyrdd gwell o weithio. Rydym wastad yn gwneud popeth yn ddiogel ac yn drylwyr. Mae'r ffaith ein bod yn onest, hyd yn oed pan fo pethau'n anodd, yn golygu y gall ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid ymddiried ynom i wneud y peth iawn bob amser. Drwy ymddwyn yn ôl y gwerthoedd hynny bob dydd, byddwn yn ennill ymddiriedaeth ein cwsmeriaid.



1 CYFLWYNIAD

1.1 Ynglŷn â'r ddogfen hon

Diben y ddogfen hon yw cyflwyno, a holi barn am, ein Datganiad o Risgiau, Cryfderau a Gwendidau sy'n gysylltiedig â sicrwydd adroddiadau rheoleiddiol a'r Cynllun Sicrwydd Drafft yr ydym yn bwriadu ei roi ar waith i reoli a lliniaru'r risgiau hynny a nodwyd.

Ein nod cyffredinol yw sicrhau bod y data a'r wybodaeth yr ydym yn eu cyhoeddi yn gywir ac yn ddibynadwy. Mae hyn wedi ei seilio ar fframwaith sicrwydd sy'n cynnwys nifer o nodweddion, yn enwedig diwylliant corfforaethol a threfn lywodraethu sy'n hwyluso'r gwaith o brosesu gwybodaeth o ansawdd uchel i'r lefel sy'n ddisgwyliedig gan ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid. Rydym yn parhau i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid allweddol er mwyn deall yr wybodaeth y maent yn ei defnyddio ac y maent yn dibynnu arni er mwyn i ni allu teilwra ein gweithgareddau sicrwydd yn briodol.

Rydym hefyd yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod ein dogfennau yn cael eu hysgrifennu mewn ffurf sy'n hawdd ei deall i'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid, ac rydym yn parhau i ymdrechu i ["ennill ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd"](#).

Dyma'r trydydd tro i ni gyhoeddi Datganiad o Risgiau, Cryfderau a Gwendidau ac wedi cynnal ymgynghoriad arno. Ar bob un o'r achlysuron blaenorol rydym wedi defnyddio'r adborth a gawsom gan randdeiliaid i ddatblygu Cynllun Sicrwydd Drafft ac rydym wedi ymgynghori ymhellach ar ôl hynny cyn cyhoeddi'r Cynllun Sicrwydd Terfynol. Eleni, rydym yn ymgynghori ar y Datganiad o Risgiau, Cryfderau a Gwendidau ac ar y Cynllun Sicrwydd Drafft ar yr un pryd. Yn y cyd-destun hwn, rydym wedi ystyried sylwadau a gafwyd yn flaenorol gan randdeiliaid allweddol sydd wedi helpu i lywio newidiadau ac wedi caniatáu i ni ddatblygu arferion gorau. Rydym hefyd wedi ymestyn rhychwant y gweithgareddau sicrwydd i gynnwys adroddiadau cysylltiedig â meysydd eraill megis yr Adolygiad Prisïau a chyflwyniadau rheoleiddiol sy'n hyrwyddo datblygiad y farchnad Bioadnoddau (a elwir hefyd yn slwtsh) a gweithgareddau Adnoddau Dŵr.

Yn ein Datganiad o Risgiau, Cryfderau a Gwendidau, rydym yn nodi'r risgiau a allai effeithio ar ein gallu i ddarparu gwybodaeth y gall ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid ymddiried ynddi a bod yn ddibynnol arni.

Mae ein Cynllun Sicrwydd Drafft yn nodi'r gweithredoedd sy'n angenrheidiol o'n safbwynt ni i ymdrin â'r risgiau a'r gwendidau a nodwyd.

Gofynnwn am farn ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid ar y Datganiad o Risgiau, Cryfderau a Gwendidau a'r Cynllun Sicrwydd Drafft cysylltiedig. Defnyddir yr adborth i lywio ein Cynllun Sicrwydd Terfynol, y bwriadwn ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2018.



1.2 Sut i ymateb

Rydym yn croesawu sylwadau gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid. Yn benodol, mae gennym ddiddordeb i gael eich barn ar y canlynol:

CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD	
C1.	A yw ein cynlluniau yn cwmpasu'r wybodaeth sy'n bwysig i chi ac a fydd y sicrwydd a gynlluniwyd yn eich gwneud yn ffyddiog y bydd ein gwybodaeth yn gywir ac yn gyflawn?
C2.	A oes unrhyw wybodaeth ychwanegol yr ydych yn credu y gellir ei darparu a fydd yn helpu i godi hyder y rhanddeiliaid a'r cwsmeriaid yn y cwmni?
C3.	A yw'r ddogfen hon yn hawdd ei darllen ac a oes unrhyw fodd y gallem ei gwella?

Byddem yn croesawu eich ymatebion erbyn **12 Ionawr 2018**.



Gellir anfon ymatebion i assuranceplanconsultation@dwrcymru.com



neu drwy'r post i:

Ymgynghoriad Cynllun Sicrwydd
Dŵr Cymru Welsh Water
Heol Pentwyn
Nelson
Treharris
Morgannwg Canol CF46 6LY

Caiff gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth - Deddf Diogelu Data 1988 a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn bennaf.

Pe byddech yn dymuno i'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu gael ei thrin yn gyfrinachol, esboniwch pam. Os daw cais i law am ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn rhoi ystyried lawn i'ch esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd y gallwn gadw cyfrinachedd ym mhob amgylchiad. Nid ystyrir y bydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a grëir gan eich system TG, ar ei ben ei hunan, yn ein rhwymo.

2 CEFNDIR A CHYD-DESTUN

Byddwn yn cyhoeddi ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol (APR) ar gyfer 2017/18 yn ystod haf 2018. Bydd hyn yn debyg i adroddiadau yr ydym wedi eu cyhoeddi yn y blynyddoedd blaenorol. Bydd yr adroddiad yn caniatáu i randdeiliaid asesu sut yr ydym wedi perfformio yn erbyn y Mesurau Llwyddiant hynny a ystyrir i fod y rhai pwysicaf gan ein cwsmeriaid (y “Mesurau Perfformiad”). Cytunwyd ar y targedau o ran Mesurau Perfformiad ar y cyd â chwsmeriaid fel rhan o ymarfer ymgysylltu eang â chwsmeriaid a gynhaliwyd pan oeddem yn paratoi ein cynlluniau busnes ar gyfer y cyfnod 2015-20.

Mae’n bwysig ein bod yn darparu gwybodaeth i gwsmeriaid a rhanddeiliaid sydd wedi ei harwain gan gwsmeriaid, sy’n hygyrch, yn glir, yn gywir, yn dryloyw ac yn amserol. Ein hamcan parhaus felly yw darparu gwybodaeth sy’n hawdd ei dilyn a dod o hyd iddi, ac sy’n eu galluogi i ddeall sut yr ydym yn perfformio. Rydym hefyd yn cydnabod bod hyn yn datblygu ymddiriedaeth a hyder yn y busnes.

Mae’r Grŵp Herio ar ran Cwsmeriaid (CCG) yn darparu adolygiad annibynnol ychwanegol, a rhennir gwybodaeth â’r CCG yn rheolaidd i’w galluogi i herio’r cynnydd o ran cyflawni ein hymrwymadau i berfformiad. Byddwn yn parhau i weithio gyda’r CCG i ddatblygu ein hadroddiadau ar berfformiad er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd disgwyliadau’r cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill.

Elfen allweddol o’r Fframwaith Perfformio Cwmnïau (CMF) yw lefel y sicrwydd sy’n ofynnol gan Ofwat yn ychwanegol i gynigion sicrwydd y cwmni ei hunan. Rydym yn aros am drydydd asesiad blynyddol Ofwat er mwyn gweld a ddylai cwmnïau symud rhwng y tri chategori canlynol:

- “hunan-sicrwydd”, pan fo cwmni’n defnyddio ei ddisgresiwn ei hunan i ddarparu sicrwydd y tu hwnt i’r gofynion sicrwydd cyffredin;
- “sicrwydd wedi’i dargedu”, pan fo cwmni’n colli disgresiwn ar rai meysydd sicrwydd y tu hwnt i’r gofynion sicrwydd cyffredin; neu
- “sicrwydd rhagnodedig”, pan fo cwmni’n colli disgresiwn ar nifer fawr o feysydd sicrwydd y tu hwnt i’r gofynion sicrwydd cyffredin.

Yn ei asesiad ym mis Tachwedd 2016, penderfynodd Ofwat y dylai DCWW aros yn y categori “sicrwydd wedi’i dargedu”.

Yn yr asesiad, daeth Ofwat i’r casgliad ein bod wedi dangos y gallwn ddarparu gwybodaeth gywir a dibynadwy sy’n codi ymddiriedaeth a hyder y rhanddeiliaid, a nododd hefyd “*ein bod wedi bod yn falch gyda llawer o’r hyn a welsom yng nghyhoeddiadau Dŵr Cymru*” a “*llwyddodd Dŵr Cymru i wireddu ein disgwyliadau yn y rhan fwyaf o’r dulliau sicrwydd*”.

Pan fyddwn yn derbyn asesiad Fframwaith Perfformio Cwmnïau (CMF) Ofwat (a ddisgwyilir erbyn diwedd mis Tachwedd 2017) byddwn yn adolygu’r asesiad, ac os yw’n briodol, byddwn yn esbonio yn ein Cynllun Sicrwydd Terfynol sut yr ydym yn bwriadu ymdrin ag unrhyw sylwadau yn y ddogfen hon.

Felly, er mwyn caniatáu inni ddatblygu cynllun sicrwydd wedi’i dargedu, cynhaliwyd asesiad risg yr adroddir arno ar gyfer yr holl ddata perthnasol a gynhwysir yn yr APR ac mewn dogfennau allweddol eraill. Roedd hwn yn ymarfer pwysig ac roedd yn rhan ffurfiol o’r Datganiad o Risgiau, Cryfderau a Gwendidau.

3 EIN DULL A'R HYN YR YDYM YN CEISIO EI GYFLAWNI

Mae dibynadwyedd data a'i gywirdeb yn hynod o bwysig i ni ac mae hwn yn gyfle i ddatblygu'r hyn sydd eisoes wedi bod ar waith gennym ni. Rydym wedi cadw nifer o'r prosesau a'r mentrau, megis sicrwydd ansawdd data, diwydrwydd dyladwy, hyfforddiant a mapio prosesau sydd wedi gwasanaethu'r busnes yn dda yn y gorffennol.

Mae gennym fframwaith archwilio a sicrwydd ar waith a grëwyd i ganiatáu'r monitro ac asesu systematig o agweddau gwahanol ar ein perfformiad. Bydd hyn yn sicrhau y bodlonir y safonau ansawdd. Mae hyn yn cynnwys cael trefniadau llywodraethu priodol, ymgysylltiad agos â'n Bwrdd o ran y broses sicrwydd, yn ogystal â'r lefel gywir o arolygiad annibynnol gan ddefnyddio craffu a herio gan drydydd parti. Darperir yn y modd hwn sicrwydd i'n Bwrdd, ein rhanddeiliaid a'n cwsmeriaid ac mae hyn yn sicrhau cyfreithlondeb a sicrwydd o ran lefel y perfformiad a'r gwasanaeth a ddarparwn.

Bydd yr wybodaeth a gyhoeddwn ar ein perfformiad yn rhoi sicrwydd i gadw a datblygu lefel uchel o ymddiriedaeth a hyder gan ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid. Mae mabwysiadu dull sicrwydd seiliedig ar risg, a defnyddio arolygiad mewnol ac allanol, yn darparu her a chraffu cadarn i'n perfformiad.

Mae ein dull sicrwydd seiliedig ar risg yn archwilio ein proses adrodd o'r dechrau i'r diwedd er mwyn nodi'r risgiau, cryfderau a gwendidau cysylltiedig â darparu gwybodaeth sydd o ansawdd uchel ac y mae cwsmeriaid a rhanddeiliaid yn ymddiried ynddi. Mae hefyd yn archwilio tebygolrwydd y risgiau hynny'n dod i'r amlwg a'u heffaith bosibl. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y meysydd a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ac mae'n caniatáu inni gymryd camau i fonitro a rheoli unrhyw risgiau perthnasol.

Seilir y dull yr ydym wedi ei ddilyn ar y fethodoleg a gyflwynwyd gan Ofgem. Datblygwyd y fethodoleg honno i ddarparu canllawiau ar arfer gorau ar gyfer cynnal asesiadau o risg ac adrodd arnynt, ynghyd â gweithgareddau sicrwydd data i sicrhau bod y data sy'n cael eu cyflwyno'n gyflawn, yn gywir ac yn amserol. Adolygwyd ein dull yn annibynnol a'i gymeradwyo gan KPMG ym mis Awst 2015. Daeth KPMG i'r casgliad:

- Bod gennym ddealltwriaeth dda o ofynion Ofwat a bod ein dogfennau polisi a 'n dogfennau mapio risg yn sôn am bob manylyn angenrheidiol; a bod
- Bod ein Cynllun Sicrwydd Data (ar sail y fethodoleg a gyflwynwyd gan Ofgem) yn briodol.

Yn y blynyddoedd cynt, rydym wedi defnyddio'r dull hwn er mwyn asesu risgiau, cryfderau a gwendidau cysylltiedig ag adroddiadau ar berfformiad yn erbyn y Mesurau Perfformiad hynny o fewn y Penderfyniad Terfynol 2014 (FD14). Cafodd y rhain eu cynnwys yn ein APR.

Yn 2016/17, nodwyd nifer o weithgareddau newydd yr oeddem yn credu y dylid eu cynnwys yn ein gweithgareddau sicrwydd. Roedd y rheini'n cynnwys Gwasanaethau Datblygwyr, Cynlluniau Codi Tâl a Chyhoeddiadau gwefan. Ailwerthuswyd y rhain a diweddarwyd yr asesiad risg priodol neu rydym yn cynnig ein bod yn cael gwared ar y rheini lle credwn yr ymdriniwyd yn llawn â'r risg. Byddwn yn ystyried unrhyw sylwadau pellach gan ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid ar y dull hwn.

Gyda'r gofyniad newydd i gynnwys data Asesu Costau yn rhan o'r APR, rydym wedi defnyddio'r un fframwaith Ofgem i asesu risg y gwahanol grwpiau data ac i asesu'r cryfderau a'r gwendidau cysylltiedig.

Mewn meysydd eraill, e.e. Bioadnoddau / Gwybodaeth Marchnata Adnoddau Dŵr a gweithgareddau PR19, rydym wedi mabwysiadu dull seiliedig ar risg ac rydym wedi teilwra ein gweithgareddau sicrwydd i adlewyrchu ein hasesiad o risgiau a ddisgwyli'r rheolaeth sydd ar waith i reoli a lliniaru'r risgiau hynny.

4 EIN DULL SICRWYDD DATA

Mae gennym brosesau llywodraethu ac atebolrwydd sydd wedi hen sefydlu yn rhan o'r busnes. Mae ein Cynllun Sicrwydd arfaethedig ar gyfer 2017/18, yn parhau i adeiladu ar y sail gadarn a ddatblygwyd yn y blynyddoedd diwethaf.

Seilir ein fframwaith sicrwydd data ar bedair carreg filltir allweddol:

- Egwyddorau sicrwydd cadarn – rydym yn gweithredu 'model sicrwydd tair llinell', sydd wedi'i dargedu at feysydd risg uchaf;
- Perchnogaeth ac atebolrwydd clir – mae gennym linellau perchnogaeth ac atebolrwydd clir ar gyfer cyflawni perfformiad, a hefyd gywirdeb a dibynadwyedd y data a ddarperir;
- Llywodraethu effeithiol – rydym yn destun craffu i'n Bwrdd, ein Pwyllgor Archwilio a Gweithredwr Dŵr Cymru (DCE), gyda her ychwanegol a ddarperir gan y CCG; a
- Tryloywder ac atebolrwydd - rydym yn adrodd ar ein perfformiad yn gyhoeddus ac yn dwyn ein hunain i gyfrif os nad ydym yn bodloni ein hymrwymiaidau.

4.1 Egwyddorion sicrwydd cadarn

Mae gennym fframwaith wedi'i sefydlu i ddarparu rheolaeth risg effeithiol. Rydym yn gweithredu ar y 'model sicrwydd tair llinell' sy'n gosod tair llinell ar wahân, y llinell gyntaf (risgiau a rheolaeth), yr ail linell (swyddogaethau goruchwyliaeth) a'r drydedd linell (sicrwydd annibynnol). Ceir gweld hyn yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1: Model sicrwydd tair llinell

Linell	Maes	Swyddogaeth	Math o weithgaredd
1 Risgiau a rheolaeth:	Gweithrediadau Busnes	Darparu Gwasanaeth a Pherfformiad	• Darparu gwybodaeth o'r ffynhonnell.
	Rheoli Busnes	Monitro ac adrodd ar berfformiad	• Diffinio a chofnodi methodoleg a phrosesau. • Nodi newidiadau sylweddol i systemau a phrosesau. • Gweithredu gwiriadau safon ac archwiliadau. • Adrodd am wybodaeth ar berfformiad.
2 Swyddogaethau goruchwyllo:	Rheoleiddio, Cyllid, Cwnsler Cyffredinol, Cydymffurfiaeth	Diffinio polisi a darparu fframwaith sy'n galluogi adroddiadau rheoleiddiol	• Datblygu fframwaith sicrwydd. • Adolygu gwybodaeth ar berfformiad a gyflwynwyd. • Monitro'r ddarpariaeth o rwymedigaethau. • Adrodd i'r Bwrdd. • Gweithredu gwiriadau ac adolygiadau ansawdd. • Darparu cyngor, canllawiau a chymorth.
	Bwrdd, Pwyllgor Archwilio, Pwyllgor	Craffu a herio	• Adolygu gwybodaeth ar berfformiad a gyflwynwyd.

Linell	Maes	Swyddogaeth	Math o weithgaredd
	Ansawdd ac Amgylchedd, CCG		• Monitro'r broses o weithredu cynlluniau gwella. • Adolygu proffil y risg.
3 Sicrwydd Annibynnol:	Sicrwydd Busnes, darparwyr sicrwydd allanol	Adolygiad annibynnol o sicrwydd a brofwyd gan y llinell gyntaf a'r ail linell	• Adolygu methodoleg a phrosesau. • Adolygu'r gweithrediad o fethodoleg a phrosesau. • Rhoi barn ar gywirdeb data. • Adolygu priodoldeb y fframwaith sicrwydd.

Rydym yn edrych ar sicrwydd fel rhan o'n rhaglen gwella barhaus. Cynhelir gweithgareddau'r llinell gyntaf a'r ail linell trwy gydol y flwyddyn, gan ddarparu gwelededd clir o feysydd risg posibl. Rydym yn gosod trydedd linell sicrwydd allanol ar adegau perthnasol yn ystod y flwyddyn, ac mae rhan helaeth o hyn yn dod at ei gilydd yn ein hadroddiad ariannol a pherfformiad ar ddiwedd y flwyddyn.

4.2 Perchnogaeth ac atebolrwydd clir

Mae perchnogaeth bersonol a chydberchnogaeth gref yn hanfodol er mwyn sicrhau cywirdeb yr wybodaeth yr ydym yn ei chyflwyno, yn ysgogi gwelliannau ac mae hefyd yn golygu y gallwn ddwyn ein hunain i gyfrif. Mae'r arfer o greu adroddiadau mewnol i'r DCE yn rheolaidd, yn fisol, ac i'r Bwrdd (yn ystod pob cyfarfod, ynghyd ag adrodd ar berfformiad i'r CCG, yn cryfhau'r diwylliant perchnogaeth ac atebolrwydd hwn. Rydym yn diweddarau ein fframwaith cydymffurfio yn flynyddol i sicrhau cysylltiad rhwng atebolrwydd y gwahanol elfennau a'n rhwymedigaethau rheoleiddiol a statudol. Rydym hefyd yn gweithredu proses gymeradwyo lem ar gyfer data rheoleiddiol sydd wedi eu cynnwys yn yr APR, gan gynnwys cymeradwyo gan berchennog y data, yr uwch reolwr cyfrifol (pan fo hynny'n briodol) a'r cyfarwyddwr atebol. Mae hyn yn ategu trefniadau llywodraethu ein Bwrdd.

Mae ein 'model tair llinell sicrwydd' yn sicrhau bod dosbarthu atebolrwydd clir ar waith rhwng y rhai hynny sy'n gyfrifol am ddarparu ymrwymiad perfformio neu rwymedigaeth reoleiddiol/statudol a'r rhai hynny sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod y data hynny yn gywir. Adlewyrchir y darluniad hwn yn ein trefniadau llywodraethu.

4.3 Llywodraethu effeithiol

Rydym yn adolygu ein trefniadau llywodraethu yn barhaus i sicrhau ein bod yn dal yn cydymffurfio â newidiadau i God Llywodraethu Corfforaethol y DU yn y dyfodol. Rydym wedi gwneud yn siŵr fod y cod sydd ar waith gennym yn adlewyrchu ein hegwyddorion ar gyfer adroddiadau ar berfformiad a'n trefniadau llywodraethu a'i fod yn darparu:

- tryloywder o ran ein prosesau paratoi adroddiadau er mwyn cyrraedd a rhagori ar y safonau a nodwyd yn Rheolau Tryloywder a datgelu'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol; a
- herio priodol gan ein Bwrdd, drwy wneud yn siŵr fod ganddynt gydbwysedd priodol o ran sgiliau, profiad, annibyniaeth a gwybodaeth am y cwmni.

Mae ein Cynllun Sicrwydd yn darparu ar gyfer llywodraethu ein hymrwymadau perfformio ac adroddiadau allanol eraill gan roi darluniad clir o atebolrwydd ac mae ganddo'r nodweddion allweddol canlynol:

- Swyddogaeth y Bwrdd yw cyflawni ei ddyletswyddau i randdeiliaid y cwmni. Mae'n adolygu perfformiad o safbwynt amcanion strategol ac ymrwymadau cynllun busnes y cwmni – gan sicrhau y cyflawnir unrhyw weithred unioni sydd ei hangen;
- Mae Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd yn cynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau dros gywirdeb datganiadau ariannol y cwmni, y prosesau asesu ac effeithiolrwydd y rheolaeth fewnol ar gyfer data ariannol a data eraill ac ar gyfer effeithiolrwydd archwilwyr mewnol ac allanol; ac
- Mae'r Grŵp Herio ar ran Cwsmeriaid (CCG) yn cyflwyno her annibynnol allanol i'n perfformiad yn erbyn ein hymrwymadau ac i unrhyw wybodaeth gynorthwyol yr ydym yn ei darparu ar hyn.

4.4 Tryloywder ac atebolrwydd i'r cyhoedd

Ein Gweledigaeth yw sicrhau bod ein cwsmeriaid yn ymddiried ynom bob dydd ac rydym wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn onest wrth gyfathrebu a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad. Mae ein cyfathrebu yn seiliedig ar onestrwydd, cywirdeb, hygyrchedd ac amseroldeb. Mae ein gwybodaeth a'n hadroddiadau yn mynd drwy nifer o lefelau gwirio cyn cael eu cynnwys mewn cyhoeddiadau craidd, ac mae hyn yn cynnwys adolygiadau gan gymheiriaid, cymeradwyaeth gan uwch reolwyr, ac adolygiad gan y DCE neu'r Bwrdd, yn ôl y gofyn. Eleni, byddwn yn parhau i ddwyn ein hunain i gyfrif drwy gyhoeddi ein Hadroddiad Perfformiad Blyneddol (APR) am 2017/18 a fydd yn ymgorffori gofynion Ofwat ar gyfer adroddiadau.



5 DIWYLLIANT EIN CWMNI

Mae ein dull sicrwydd data yn gwneud i ni ystyried risgiau cysylltiedig â phrosesau ac yn nodi'r rheolaeth benodol sydd ar waith i gael rheolaeth ar y risgiau hynny a'u lliniaru. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio nad yw'r rheolaeth hon yn gweithredu mewn gwactod, ond yn hytrach mae'n digwydd mewn sefydliad sydd â'i ddiwylliant a'i lywodraethu ei hun sy'n darparu lefel o sicrwydd ar gyfer nifer o risgiau.

Crëir diwylliant ein cwmni gan y gwerthoedd yr ydym yn eu mabwysiadu a chan wybodaeth, sgiliau ac agweddau ein cyflogeion. Rydym wedi sicrhau mai ein Gweledigaeth yw ennill ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd. Mae'n hollbwysig ein bod yn ymddwyn yn gyfrifol fel unigolion ac fel cwmni ar bob adeg — nid yn unig pan fo hyn yn ofynnol gan y gyfraith, ond hefyd yn gyffredinol, yn ein bywydau gwaith.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein cyflogeion yn cael yr offer i wneud eu gwaith, a dyna pam yr ydym yn buddsoddi mewn nifer fawr o gynlluniau datblygu mewnol.

Rydym yn gweithio mewn amgylchedd lle nad yw'r rheolwyr yn cuddio yn eu swyddfeydd, ac mae gennym bolisi o ddrysau agored bob amser. Felly, os oes gan gydweithiwr gwestiwn i'w ofyn, bydd modd cael ateb bob tro. Mae hyn yn ein galluogi i ddatblygu cysylltiadau gweithio agos, hygyrchedd a llif cyfathrebu agored.

Mae ein diwylliant yn garreg filltir i'r broses sicrwydd data ac mae'n seiliedig ar werthoedd a chredau a rennir. Mae'n helpu i lywio'r ffordd yr ydym yn cyflawni ein busnes bob dydd ac yn sicrhau ein bod yn ymdrechu i "wneud y peth iawn" bob amser. Gan ei fod mor bwysig, mae diwylliant y cwmni yn cael ei ddisgrifio weithiau fel haen o reolaeth sy'n dod cyn y llinell gyntaf o sicrwydd i herio gwybodaeth anghywir. Mae cynnal diwylliant positif yn bwysig i ni oherwydd:

- mae pawb yn ymwybodol o'r disgwyliadau o ran gwybodaeth o ansawdd uchel;
- bydd prosesau rheoli eraill yn canolbwyntio ar wirio a chywiro gwallau, ond gan fod ein diwylliant corfforaethol yn un positif, mae gwallau'n llai tebygol o ddigwydd gan fod unigolion yn cynhyrchu, yn cofnodi ac yn trosglwyddo gwybodaeth yn gyflawn ac yn gywir fel rhan o'r ffordd y maent yn gweithio;
- gosodir rheolaeth ychwanegol dros y broses adrodd gwybodaeth, ond mae'r rheolaeth ddiwylliannol wedi'i hymgorffori ynddi;
- gall dulliau rheoli eraill fod ar waith dros dro neu ar gyfnodau, ond mae diwylliant yn rheoli'n barhaus ac yn barhaol; ac
- mae pawb yn gwybod eu bod yn cael bod yn onest am wallau data.

Llywodraethu corfforaethol yw'r system o reolau, arferion a phrosesau yr ydym yn ei rhoi ar waith i redeg ein busnes yn effeithiol, gan sicrhau ein bod yn bodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol ac yn rheoli ein risgiau yn effeithiol. Mae llywodraethu da yn hanfodol ar gyfer pob un o'n gweithgareddau; mae'n helpu i ddatblygu ymddiriedaeth ein cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill ac mae'n ein cynorthwyo i wneud penderfyniadau effeithiol.

Mae diwylliant yn ymwneud â phobl, lawer mwy nag â rheolau. Rydym yn ystyried ein Cod Ymddygiad yn llinell sylfaenol; crëir diwylliant drwy'r hyn yr ydym yn ei wneud yn hytrach na'r hyn yr ydym yn ei ddweud.

O ran sicrwydd data, ystyriwn y nodweddion canlynol o'n diwylliant a'n fframwaith llywodraethu yn gryfderau allweddol:

- Dau o'n chwe Gwerth corfforaethol yw "ymddiried ynom i wneud y peth iawn" a "rhagorol ym mhopeth yr ydym yn ei wneud". Mae'r rhain yn gymwys i drafod o ran gweithio gyda gwybodaeth cymaint ag y mae'n gymwys ar gyfer unrhyw broses arall;
- Rydym yn disgwyl i bob un o'n rheolwyr fod yn "onest ac yn ddibynadwy" ac i "weithredu gyda gonestrwydd" bob amser. Mae'r ymddygiadau hyn wedi eu gosod yn ein Fframwaith Ymddygiadau Corfforaethol;
- Mae ein cyflogeion yn deall ac yn gwerthfawrogi'r gwerth sy'n dod gydag ansawdd data a'r prosesau a ddefnyddir i gynhyrchu data. Mae'r Adran Rheoliadau yn cynnig cyngor a chanllawiau ar ffurf Pecynnau Gwybodaeth, yn ogystal â sesiynau hyfforddi priodol;
- Mae ein Fframwaith Ymddygiadau Corfforaethol yn annog ein cydweithwyr i "fod yn hyderus i godi unrhyw bryderon" am wybodaeth anghywir neu i gynnig gwelliannau i'r prosesau presennol a fydd yn gwella ansawdd data. Ceir y dewisiadau sydd ar gael i'n cydweithwyr o ran codi pryderon yn ein gweithdrefn "Chwythu'r Chwiban";
- Cynhelir adolygiadau o berfformiad yn rheolaidd ar draws y cwmni o lefel Bwrdd i unigolion. Mae hyn yn cynnwys y rhai hynny a gynhelir gan y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio, y Prif Swyddog Gweithredol, y Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd a'r tîm DCE;
- Mae'r Archwilydd Technegol (Jacobs) yn cynnal adolygiad ffurfiol ynghyd ag ardystiad o bob Mesur Perfformiad, ac o ddetholiad o ddata rheoleiddiol arall. Mae'n darparu adroddiad manwl gan wneud sylwadau ar gydymffurfiaeth â gweithdrefnau a gofynion ar gyfer adroddiadau rheoleiddiol perthnasol. Mae hefyd yn amlinellu unrhyw broblemau o ran y ffigurau a adroddwyd. Mae hyn yn cynnwys gwirio ffynhonnell y data, y broses o gasglu data yn ogystal ag unrhyw allosodiad, ac asesu priodoldeb y data a adroddwyd. Hefyd, mae'r Archwilydd Technegol yn adolygu ac yn graddio pob un o'n Datganiadau Methodoleg sy'n bodoli am bob un o'n mesurau allweddol a data rheoleiddiol perthnasol arall;
- Cyn cyhoeddi'r APR, mae'r tîm Sicrwydd Busnes mewnol yn cynnal archwiliad ac asesiad safon uchel o'r systemau sydd ar waith yn y fframwaith adrodd o fewn DCWW, ac mae'n adolygu effeithiolrwydd y system sy'n ymwneud â rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu;
- Cymeradwyir rhaglen o archwiliadau mewnol dan oruchwyliath y Pwyllgor Archwilio i asesu priodoldeb y prosesau rheoli, llywodraethu a rheoli risg. Adroddir ar ganlyniadau'r archwiliadau hynny i'r Pwyllgor Archwilio, sy'n sicrhau bod gweithredoedd a godir gan archwiliadau mewnol yn cael eu cyflawni yn amserol;
- Mae rhai o'n rhanddeiliaid allweddol hefyd yn cynnal archwiliadau ac yn craffu ar ein data. Er enghraifft, cynhelir archwiliad blynyddol gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar ein data Hunan-fonitro drwy Weithredydd ar gyfer gwaith trin carthffosiaeth. Mae CCWater hefyd yn asesu'n rheolaidd ein proses o ymdrin â chwynion ysgrifenedig gan gwsmeriaid ac yn adolygu ein proses ddyledion;
- Mae gennym broses rheoli risg wedi'i mewnosod sy'n nodi, asesu a rheoli ein risgiau. Mae pob gweithiwr yn cymryd rhan mewn rheoli risg. Mae timau unigol yn y busnes yn gyfrifol am reoli risgiau yn eu meysydd cyfrifoldeb nhw. Trafodir y rhai hynny bob mis yn rhan o gyfarfodydd DCE. Adolygir diweddariad DCE ar risgiau strategol sy'n effeithio ar y busnes ym mhob cyfarfod Bwrdd;
- Mae prosesau cadarn i fonitro rheolaeth ariannol yn rhoi sicrwydd bod ein rheolaeth ariannol yn gweithredu'n effeithiol ac y gallwn ymddiried yn yr wybodaeth ariannol a gynhyrchir gan ein system cyfrifyddu; ac
- Mae ein System Rheolaeth Integredig, sydd wedi cael ardystiad ar gyfer gwahanol safonau ISO, wedi ei sefydlu i gryfhau'r broses rheoli risgiau a chyfleoedd, sy'n gysylltiedig â llawer o feysydd yn ein busnes, a'r broses gydymffurfio â rhwymedigaethau rheoleiddiol a deddfwriaethol. Cynhelir archwiliadau cydymffurfio â'r system hon yn fewnol a chan ein hardystwyr trydydd parti (BSI).

6 PWYSIGRWYDD YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID

Rhan allweddol o Fframwaith Cydymffurfio Cwmnïau yw'r sicrwydd a geir ar bob cam o'r broses a'r modd yr ymgysylltwn â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod yr wybodaeth yr ydym yn ei darparu yn gallu helpu ac yn berthnasol i'w hanghenon.

Rydym wedi ystyried yr adborth i'r ymgynghoriad ar ein Hadroddiad Risgiau, Cryfderau a Gwendidau 2016/17 a'r Cynllun Sicrwydd 2016/17. Cytunodd y rhanddeiliaid â'r meysydd a dargedir a nodwyd gennym ac ni nodwyd unrhyw faes ychwanegol. Roeddent hefyd yn gefnogol o'n dull sicrwydd ac ni nodwyd unrhyw fylchau yn y dogfennau ac rydym wedi ystyried y trafodaethau a'r sylwadau wrth greu'r ddogfen hon.

Mae'r CCG yn helpu i sicrhau bod cwsmeriaid y presennol a'r dyfodol yn ganolog i'r ffordd yr ydym yn gweithredu. Rydym wedi ymrwmo i weithio gyda'r CCG i wneud yn siŵr eu bod yn gallu herio'r cwmni a darparu barn annibynnol ar ansawdd ein hymgysylltiad â chwsmeriaid ac i ba raddau y mae canlyniadau'r ymgysylltiad hwn yn sbarduno penderfyniadau.

Mae gennym [Brotocol Ymgysylltu â Chwsmeriaid <http://www.dwrcymru.com/en/Company-Information/~media/Files/Company%20Information/Our%20Assurance%20Framework/Engagement%20Policy/Engagement%20with%20Stakeholders%20Protocol%20Updated.ashx>](http://www.dwrcymru.com/en/Company-Information/~media/Files/Company%20Information/Our%20Assurance%20Framework/Engagement%20Policy/Engagement%20with%20Stakeholders%20Protocol%20Updated.ashx) sy'n rhan sylfaenol o'n hymgysylltiad â chwsmeriaid.

Rydym yn cyfathrebu â rhanddeiliaid yn gyson, ac fel rhan o'n rhaglen ymgysylltu barhaus, rydym naill ai wedi cwrdd â nhw neu wedi trefnu cyfarfodydd. Dyma gyfle i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt ar y ddogfen ymgynghori hon.



7 PROSES ASESU RISG A GWERTHUSO RISGIAU, CRYFDERAU A GWENDIDAU

7.1 Ein hasesiad o risgiau ansawdd data

Diffinnir risg fel canlyniad ansicr yn y dyfodol a gaiff, os yw'n digwydd, effeithiau negyddol ar ansawdd a dibynadwyedd yr wybodaeth a gyhoeddir. Pennir risg gan y cyfuniad o'r tebygolrwydd ohono'n digwydd a mesur o'r effaith pe byddai'n digwydd. Mae risg yn gysylltiedig â'r lefel y disgwylir y caiff data anghywir neu anghyflawn eu cyflwyno i'n rhanddeiliaid yn y dyfodol a'r canlyniadau posibl.

Penderfynir ar y proffil Risg cyffredinol ar gyfer data rheoleiddiol o fewn yr APR drwy asesu'r tebygolrwydd o'r data yn cynnwys gwall a'r effaith y gallai'r gwall hwn ei chael ar y busnes. Mae'r Matrics Risg sy'n deillio o hyn yn cynnwys dwy elfen fetrig - y Metrig Effaith a'r Metrig Tebygolrwydd. Y Gyfradd Cyfanswm Risg a bennir yw cyfuniad o'r ddau fetrig.

Mae'r elfen tebygolrwydd o Risg yn cael ei dirprwyo gan y Metrig tebygolrwydd ac mae'r elfen effaith o Risg yn cael ei dirprwyo gan y Metrig Effaith. Diffinnir y Metrigau Tebygolrwydd ac Effaith fel a ganlyn:

- **Metrig Effaith:** mesur sy'n cynrychioli'r effaith o Risg a nodwyd yn ymddangos. Mae'n gysylltiedig â'r effaith y disgwylir ei chael ar rhanddeiliaid, ein cyllid, ein henw da, a'n delwedd yn y cyfryngau o gyflwyno data anghywir neu anghyflawn. Rhoddir sgôr iddo drwy asesu pob mesur data perfformiad yn erbyn y categorïau data a nodwyd; a
- **Metrig Tebygolrwydd:** mesur sy'n cynrychioli'r tebygolrwydd o ddata a allai fod yn anghyflawn neu'n anghywir. Rhoddir sgôr iddo drwy asesu'r broses casglu data, adrodd ar ddata, a'r systemau a'r prosesau rheoli cysylltiedig.

7.2 Canlyniadau o asesu'r effaith o risgiau ansawdd data

Mae gan y Metrig Effaith bedwar sgôr, o 1 i 4, gyda 4 yn nodi'r lefel uchaf o effaith andwyol ac 1 yn nodi'r lefel isaf o effaith andwyol a fyddai'n codi (yn y senario realistig gwaethaf) oherwydd y defnydd o ddata anghywir neu anghyflawn.

I gyfrifo'r Metrig Effaith rydym yn defnyddio'r tri chategori canlynol ar sgôr o 1 i 4:

- Ariannol;
- Enw da (gan gynnwys yn y Cyfryngau); a
- Rhanddeiliaid.

I gyfrifo cyfanswm sgôr effaith ar gyfer Mesur Perfformiad, rydym yn cymryd y sgôr uchaf o bob categori effaith. Rydym yn dehongli'r asesiad effaith fel yr effaith gysylltiedig o ddata anghywir neu anghyflawn ac nid yr effaith sy'n gysylltiedig â pherfformiad gwael y gallai'r data ei ddatgelu. Drwy wneud hyn, rydym yn tybio'r senario "realistig" gwaethaf.

7.3 Dull asesu'r tebygolrwydd o risgiau ansawdd data

Mae gan y Metrig Tebygolrwydd bedwar sgôr, o 1 i 4, gyda 4 yn nodi'r tebygolrwydd uchaf ac 1 yn nodi'r tebygolrwydd isaf o ddata anghywir neu anghyflawn. Ceir saith categori sy'n cael eu sgorio ar gyfer pob Mesur Perfformiad er mwyn cyfrifo ei sgôr tebygolrwydd. Dyma nhw:

- | | | | |
|----|--|---|----------------------------------|
| 1. | I1. Cymhlethdod y ffynonellau data | } | Tebygolrwydd a ddisgwylir |
| 2. | I2. Cyfanrwydd y set data | | |
| 3. | I3. Graddau ymyriad llaw | | |
| 4. | I4. Cymhlethdod ac aeddfedrwydd y rheolau adrodd | | |
| 5. | C1. Gweithgareddau rheoli | } | Fframweithiau Rheolaeth |
| 6. | C2. Profiad yr aelodau staff | | |
| 7. | C3. Tystiolaeth o wallau hanesyddol gyda'r data hwn | | |

Mae I1 i I4 yn adlewyrchu'r tebygolrwydd a ddisgwylir (I) o wall pan na ddefnyddir rheolaeth ychwanegol (yn ychwanegol i reoli systemau neu brosesau cyffredinol) i leihau Risg.

Mae C1 i C3 yn adlewyrchu'r fframwaith rheolaeth (C) sydd ar waith i leihau'r tebygolrwydd o wall. Gan ddod â'r ddau at ei gilydd ceir y tebygolrwydd o wall ar y cyfan, gan ystyried unrhyw reolaeth sydd ar waith.

Mae cyfanswm sgôr y tebygolrwydd yn ymestyn rhwng 1 a 4 a dylai Risg uchel a ddisgwylir neu amgylchedd rheolaeth gwan, os yw pob ffactor arall yn gyson, roi sgôr Risg uwch. Dylai Risg isel a ddisgwylir neu amgylchedd rheolaeth cryf arwain at sgôr Risg is.

Gallem ddisgwyl gweld mwy o amrywiad rhwng y Mesurau Perfformiad o ran Sgôr y Metrig Tebygolrwydd nag y byddem yn ei ddisgwyl o ran Sgôr y Metrig Effaith. Mae hyn oherwydd y bydd gan bob Mesur Perfformiad systemau adrodd, prosesau ac amgylchiadau rheolaeth gwahanol o ran adrodd ar ddata.

Mae hon yn broses drwyadl a ddefnyddiwyd ar gyfer pob un o'r Mesurau Perfformiad a gynhwysir yn FD14, yn ogystal â nifer o fetrigau perfformiad eraill a ystyrir, yn ein barn ni, yn bwysig gan ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid. Ceir crynodeb o'r canlyniad yn y Matrics Risgiau Effaith a Thebygolrwydd yn Atodiad 1.

Mae Ofwat wedi nodi y dylid, o 2017/18 ymlaen, gynnwys data Asesu Costau a fydd yn llywio ei waith yn y dyfodol ar osod prisiau a marchnad (a elwir yn "Dŵr 2020") o fewn APR cwmnïau. Eleni, felly, mabwysiadwyd dull tebyg ar sail risg ar gyfer data Asesu Costau a cheir manylion allbynnau yr ymarfer hwn yn y Matrics Risgiau Effaith a Thebygolrwydd yn Atodiad 2. Adroddir ar y data hwn yn APR 2017/18, a gyhoeddir ym mis Gorffennaf 2018.

O ran dogfennau allweddol eraill a rhannau mwy cyfrinachol o'r busnes sy'n cynnwys adroddiadau data, e.e. Adolygiad o Brisiau a Gwybodaeth am y Farchnad, rydym wedi cynnal asesiad risg lefel uchel ym mhob maes. Mae hyn yn cynnwys dilyn ymarfer sy'n penderfynu ar broffil cyffredinol risg ansawdd data cyffredinol drwy gyfeirio at y tebygolrwydd o'r risg yn digwydd a'r effaith bosibl ar y busnes. Ceir crynodeb o'r ymarfer hwn yn y Matrics Risg Effaith a Thebygolrwydd yn Atodiad 3.

8 DATGANIAD O RISGIAU, CRYFDERAU A GWENDIDAU

Rydym yn credu bod ein dull o asesu risg, llywodraethu a sicrwydd yn gweithio'n dda ac rydym yn ystyried hyn yn gryfder allweddol yn ein system adrodd.

Y canlyniad o'r ymarfer eleni oedd bod y proffil risg ar gyfer pob un o'r saith Mesur Perfformiad wedi eu targedu a nodwyd yn yr asesiad yn 2016/17 wedi aros yr un peth, h.y. maent wedi aros yn y categori 'isel-canolig' (gweler y Matrics Risg Effaith a Thebygolrwydd yn Atodiad 1).

Roedd hyn i'w ddisgwyl gan fod y mesurau perfformiad penodol:

- yn gymhleth yn naturiol ac yn gofyn am farn oddrychol;
- yn ddibynnol ar ddata sy'n deillio o ffynonellau allanol; a/neu
- yn sylweddol o ystyried y cosbau ariannol pe byddai'r perfformiad yn is na'r targedau a osodwyd yn FD14.

O ran sicrwydd data, amlinellir ar dudalen 12 y rhan bwysig sydd i'w chwarae gan yr Archwilydd Technegol.

Yn yr Adroddiad Sicrwydd ar yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2016/17, daeth yr Archwilydd Technegol i'r casgliad hwn: *"Rydym yn nodi bod eich dogfennau'n cael eu cadw'n dda a bod gennych brosesau cadarn ar waith ar y cyfan ar gyfer cynhyrchu eich data perfformiad o ystadegau allbynnau model."*

Ar gyfer yr holl Fesurau Perfformiad, bydd yr Archwilydd Technegol yn cynnal y canlynol:

- Dadansoddiad o reolaethau rheolwyr, llywodraethu, adolygiad annibynnol a goruchwyliaeth, rhychwant archwilio, effaith, risg a ddisgwylir a rheolaeth pob mesur;
- Adolygiad o'r fethodoleg a ddefnyddir a phriodoldeb y dogfennau methodoleg;
- Gwirio bod y fethodoleg a ddefnyddir mewn gwirionedd yn cydymffurfio â Datganiadau Methodoleg;
- Gwirio'r ffynonellau, priodoldeb a chyfanrwydd y data a ddefnyddir ar gyfer y dadansoddiad;
- Archwilio'r rhifau a adroddwyd i wirio eu bod yn gyson â'r data sylfaenol a'u bod wedi eu deillio'n gywir ohono;
- Cadarnhau bod llwybrau archwilio cadarn a thryloyw wedi eu gosod; a
- Gwneud argymhellion gyda'r nod o wella sicrwydd os oes angen.

Yn dilyn hyn, ac yn amodol ar unrhyw adborth a ddaw i law gan randdeiliaid, nid ydym yn bwriadu targedu unrhyw un o'r saith mesur perfformiad yng nghategori 'isel- canolig' gan ein bod yn credu bod y sicrwydd a ddefnyddir gan yr Archwilydd Technegol ac a ddisgrifir yn y paragraff uchod yn ddigon cadarn.

O ran y data Asesu Costau (yr adroddir arno yn yr APR) rydym wedi defnyddio'r model Ofgem a ddisgrifiwyd uchod, ac rydym wedi cynnal asesiad risg rheoleiddiol o'r 26 o dablau o oedd yn rhan o'r datganiad data Asesu Costau ar wahân a gyflwynwyd i Ofwat ym mis Gorffennaf 2016. Mae'r Matrics Effaith a Thebygolrwydd yn Atodiad 2 yn crynhoi'r sefyllfa.

Rydym yn parhau i adolygu ein prosesau a'n gweithdrefnau ar gyfer adrodd gwybodaeth gywir.

O ganlyniad i'r broses ailasesu a gynhaliwyd gennym o'r gweithgareddau ychwanegol o ran data a gafodd eu cynnwys yn y Cynllun Sicrwydd y llynedd, mae gennym erbyn hyn ddau weithgaredd nad oes angen targedu parhaus arnynt. Rydym yn ystyried erbyn hyn y gallwn ddangos cryfderau priodol yn y meysydd hyn. Bydd y rheolaeth briodol a'r camau lliniaru perthnasol yn y meysydd hynny yn parhau i fod yn gymwys. Ceir manylion pellach ym mharagraffau 8.1 ac 8.2.

Ein her yw darparu gwybodaeth ddibynadwy, amserol a phriodol i gwsmeriaid a rhanddeiliaid. Yn rhan o'r broses hon, rydym wedi nodi nifer o weithgareddau newydd a oedd yn haeddu cael eu hystyried yn ystod ein dadansoddiad o risgiau, cryfderau a gwendidau.

Ceir y gweithgareddau hyn, ynghyd â'r gweithgareddau sydd ar ôl o Gynllun Sicrwydd y llynedd, yn y Matrics Risg Effaith a Thebygolrwydd yn Atodiad 3.

Caniataodd y canlyniadau o'n hymarfer risgiau, cryfderau a gwendidau i ni ddatblygu Cynllun Sicrwydd Drafft wedi'i dargedu ar gyfer 2017/18. Fel yn y blynyddoedd cynt, mae'r Cynllun Sicrwydd Drafft yn cynnwys amrywiaeth eang o brosesau rheoli a lliniaru a gynllunnir i sicrhau y gall y rhanddeiliaid ymddiried yn yr wybodaeth a gyhoeddir gennym. Yn adran 9 o'r ddogfen hon, rydym yn nodi'r gweithgaredd parhaus neu arfaethedig i liniaru risgiau a gwendidau o'r fath a nodwyd. Gwneir hyn er mwyn ennill ymddiriedaeth a ffydd y rhanddeiliaid yng nghywirdeb a chyfanrwydd yr wybodaeth a gyhoeddir gennym.



8.1 Gwasanaethau datblygwyr

Cyflwynodd Deddf Dŵr 2014 rwymedigaethau newydd mewn cysylltiad â'r gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig i ddatblygwyr. Rydym hefyd yn adrodd ar ein perfformiad o'n gwirfodd (ynghyd â chwmnïau eraill), i alluogi cwsmeriaid i gymharu safon y gwasanaeth y maent yn eu derbyn gennym o'i gymharu â gweddill Cymru a Lloegr. Rydym yn adrodd yn erbyn cyfres o safonau y gall datblygwyr ddisgwyl iddynt fod yn gymwys mewn cysylltiad â darparu seilwaith ar gyfer pob math o ddatblygiadau newydd gan gynnwys tai.

Mae rhai metrigau yn fetrigau "perfformiad" a gaiff eu cyhoeddi yn chwarterol ar wefan Water UK. Mae metrigau eraill yn fetrigau "gwybodaeth" ac ni chânt eu cyhoeddi. Casglir y rhai hynny dim ond i'r diwydiant weld perfformiad y datblygwr neu i ddeall yn well y mathau perthnasol o feichiau gwaith.

Camau rheoli a lliniaru

- Datblygwyd llawlyfr Casglu Data ar Lefelau Gwasanaeth.
- Datganiadau methodoleg ar gyfer pob metrig.
- Mae rhan sylweddol o'r prosesau sy'n cefnogi Lefelau Gwasanaeth yn cael eu rheoli, eu monitro ac adroddir arnynt drwy SAP gydag, er enghraifft, stampio amser/dyddiad yn awtomatig.
- Adolygiadau misol o'r data gan y Rheolwr Perfformiad Busnes a Gwelliannau cyn eu cyflwyno. Adroddir ar unrhyw adolygiadau o ddata i Bennaeth y Busnes Cyfanwerthu.
- Cesglir gwybodaeth am fethiannau yn y gwasanaeth ac maent yn rhan o adolygiad gyda rheolwyr timau perthnasol sy'n nodi'r union reswm dros y methiant ac yn datblygu arfer gweithio gorau er mwyn atal methiannau rhag digwydd eto.
- Anfonir adroddiad ar y cyd yn fisol i gontractwyr y fframwaith i wirio data.
- Adroddir data yn fisol i'r DCE, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Bwrdd.

Gwelliannau a wnaed

- Ers cyhoeddi Cynllun Sicrwydd y llynedd, mae CH2M (Halcrow Management Services) wedi cynnal archwiliad cynhwysfawr o sut y mae pob cwmni dŵr yn cydymffurfio ac yn adrodd. Cadarnhaodd yr archwiliad fod DCWW yn cynnal prosesau eithriadol o gadarn o ran llywodraethu, rheolaeth gyffredinol, a chofnodion, sy'n arbennig o ddibynadwy, ar gyfer y Gwasanaeth Datblygwyr. Ni nododd yr archwiliad unrhyw fethiant o ran cydymffurfiaeth ond, yn rhan o'n rhaglen wella barhaus, mae gwaith yn cael ei wneud yn barhaus i gryfhau sicrwydd cydymffurfiaeth,

O ystyried yr uchod, yn ogystal â'r sicrwydd cadarnhaol gan Halcrow Management Services, sy'n annibynnol, rydym yn credu ein bod yn ddigon cadarn yn y maes hwn ar hyn o bryd ac, yn amodol ar farn ein rhaddeiliaid, nid ystyriwn fod y maes hwn yn gofyn am dargedu penodol yn ein Cynllun Sicrwydd Terfynol 2017/18.

8.2 Marchnad Manwerthu Busnes

Cyflwynodd Deddf Dŵr 2014 fframwaith newydd i'r gystadleuaeth manwerthu ar gyfer cwsmeriaid dibreswyl. Gosododd ein Hamod Trwyddedu R2 - Agor Marchnad Manwerthu, ofyniad arnom i fod yn barod am y farchnad manwerthu yn dod yn agored i gystadleuaeth ym mis Ebrill 2017. Bydd y prosesau sydd ar waith gennym yn parhau i fod yn rhan o'n fframwaith sicrwydd gan ganiatáu i gwsmeriaid busnes fod â llawer o ffydd mewn unrhyw ddata perfformiad a gyhoeddir gennym.

O fis Ebrill 2017, mae cwsmeriaid dibreswyl yn Lloegr wedi cael y cyfle i newid eu cyflenwr gwasanaethau manwerthu dŵr a charthffosiaeth. Penderfynodd Llywodraeth Cymru beidio â newid y trothwy o 50MI o ddefnydd y flwyddyn ar gyfer cystadleuaeth manwerthu yn rhanbarth DCWW (a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy). Felly nid oes cystadleuaeth ar gyfer gwasanaethau manwerthu dŵr gwastraff/carthffosiaeth yn y ddau ranbarth hynny. Cyfyngir y gystadleuaeth yn rhanbarth DCWW i oddeutu 120 o safleoedd ac ar gyfer dŵr yn unig. Fodd bynnag, mae'r safleoedd hyn yn defnyddio gwasanaethau dŵr gwastraff nad ydynt yn gystadleuol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt hefyd yn rhan o grwpiau corfforaethol gyda safleoedd sy'n agored i gystadleuaeth manwerthu dŵr a dŵr gwastraff yn "Lloegr" a chyda safleoedd nad ydynt yn agored i gystadleuaeth manwerthu dŵr yng Nghymru.

Mae'n ofynnol gan randdeiliaid allweddol megis Ofwat, Defra, a Market Operator Services Limited (MOSL), gael sicrwydd bod cyfranogwyr yn y farchnad a'r systemau a'r prosesau i gefnogi'r farchnad agored wedi eu harbroti'n llwyr.

Open Water yw enw'r rhaglen sy'n dod â'r rhanddeiliaid allweddol hynny a'r cwmnïau dŵr perthnasol at ei gilydd i oruchwylio'r prosesau cynllunio a chyflenwi o'r farchnad newydd. Mae fframwaith sicrwydd ar waith, sy'n nodi'r meysydd sy'n gofyn am sicrwydd ffurfiol i gefnogi penderfyniadau. Yr egwyddor sylfaenol yw bod yn rhaid i'r parti sy'n gyfrifol am ddarparu unrhyw ran o'r rhaglen gyflwyno sicrwydd o ran ei darpariaeth.

Rydym wedi gweithredu ystod lawn o systemau, prosesau a gwahanu busnes sy'n debyg i'r hyn sy'n ofynnol yn "Lloegr" ond mewn amgylchedd cystadleuol sy'n fwy cymhleth ac ar raddfa lawer llai na'r cwmnïau sy'n gweithredu yn llawn neu'n bennaf yn Lloegr. Rydym felly yn parhau i roi pwyslais sylweddol ar ddeddfwriaeth yn ymwneud â chystadleuaeth a phroblemau o ran "maes chwarae teg".

Camau rheoli a lliniaru

- Crëwyd tîm prosiect amser llawn i gynllunio a darparu'r polisi, y trefniadau, yr hyfforddiant, y newidiadau yn y prosesau a'r systemau ar draws ein gweithrediadau cyfanwerthu y gofynnwyd amdanynt.
- Mae Grŵp Llywio, sy'n adrodd i'r Bwrdd, yn goruchwylio'r rhaglen newidiadau Open Water. Mae'r Grŵp Llywio'n cynnwys Prif Swyddog Ariannol y cwmni a'r Cwnsler Cyffredinol, yn ogystal â nifer o arbenigwyr busnes a phrosiect.
- Darparwyd sicrwydd allanol annibynnol i'r Bwrdd gan ein Harchwilydd Ariannol (KPMG) a chafwyd hefyd gyngor cyfreithiol allanol.
- Mae'r strwythur a'r ymgysylltiad hyn wedi galluogi'r Bwrdd i ddarparu'r llythyrau sicrwydd ffurfiol gofynnol i rhanddeiliaid allweddol ym mis Chwefror 2016, mis Hydref 2016, a mis Chwefror 2017.

Gwelliannau a wnaed

- Gan ein bod wedi cyflwyno llythyrau Sicrwydd i Ofwat yn cadarnhau cydymffurfiaeth ag Amodau Trwyddedu, rydym yn fodlon bod adroddiadau data yn rhan annatod o'r busnes.
- Yn dilyn agoriad y farchnad, comisiynwyd Price Waterhouse Cooper i gynnal archwiliad o bob cyfranogwr Marchnad Agored gan MOSL. Cafwyd dau argymhelliad â blaenoriaeth isel, a bellach mae'r ddau wedi cael eu gweithredu a'u cau i lawr.

O ystyried yr uchod, rydym yn credu ein bod yn ddigon cadarn yn y maes hwn ar hyn o bryd ac, yn amodol ar farn ein rhaddeiliaid, nid ystyriwn fod y maes hwn yn gofyn am dargedu penodol yn ein Cynllun Sicrwydd Terfynol 2017/18.



9 CYNLLUN SICRWYDD DRAFFT

Yn yr adran hon rydym yn egluro ein Cynllun Sicrwydd Drafft arfaethedig ar gyfer 2017/18.

9.1 Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

Adroddiad blynyddol yw hwn sy'n rhoi gwybodaeth ynglŷn â chostau, perfformiad ariannol a'n perfformiad mewn cymhariaeth â'n hymrwymadau a'r hyn yr ydym ni'n ceisio ei gyflawni i'n cwsmeriaid. Caiff ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2018.

Bydd yr holl ddata yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn mynd drwy broses strwythuredig y 'tair llinell ansawdd':

- Yn y llinell sicrwydd gyntaf mae'r tîm rheoli yn gyfrifol am nodi peryglon a rheoli'r rhain drwy ddatblygu a chynnal prosesau, systemau a rheoliadau cadarn yng nghwrs naturiol eu gweithgareddau;
- Yn yr ail linell sicrwydd mae'r Tîm Rheoleiddio neu'r Tîm Cyllid yn gyfrifol am y llywodraethu ac am ddarparu'r fframwaith ynglŷn ag adrodd ar reoleiddio; ac
- Yn y drydedd linell sicrwydd bydd gwaith archwilio a sicrwydd annibynnol yn digwydd drwy gyfrwng ein tîm Sicrwydd Busnes, sy'n adolygu'r fframwaith sicrwydd a hefyd yn rhoi sicrwydd seiliedig ar risg ar elfennau unigol. Caiff yr wybodaeth sydd yn y ddogfen hon ei sicrhau hefyd gan yr Archwilydd Ariannol neu'r Archwilydd Technegol.

Adran	Disgrifiad	Gweithgareddau Sicrwydd
Adran 1 yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol: Adrodd ariannol rheoleiddiol	Gwybodaeth hanesyddol ynglŷn â chostau ariannol. Datgrynhai ariannol, o safbwynt cyfrifyddu rheoleiddiol, gan eu cysoni â chyfrifon statudol DCWW.	1. Darparwyr data, eu rheolwyr a chyfarwyddwyr unedau busnes yn cynhyrchu data, esboniadau a methodoleg a thrywydd archwilio i gefnogi'r perfformiad yr adroddwyd arno ac i ddangos y gwiriadau rheoli a ddefnyddiwyd. 2. Adolygiad y tîm ariannol o'r trywydd gwybodaeth a'r trywydd archwilio. 3. Archwiliad yr Archwilwyr Ariannol a'u barn yn unol ag anghenion archwilio Ofwat.
Adran 2 yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol: Adolygu prisiau ac adrodd ar unrhyw gylchran arall	Gwahanu refeniw a chostau ymhellach er mwyn galluogi rhanddeiliaid i adolygu perfformiad cwmnïau mewn cymhariaeth ag FD14.	1. Darparwyr data, eu rheolwyr a chyfarwyddwyr unedau busnes yn cynhyrchu a chymeradwyo data, esboniadau a methodoleg a thrywydd archwilio i gefnogi'r perfformiad yr adroddwyd arno ac i ddangos y gwiriadau rheolaeth a ddefnyddiwyd. 2. Adolygiad y tîm ariannol o'r trywydd gwybodaeth a'r trywydd archwilio. 3. Yr Archwilwyr Ariannol yn cynnal archwiliad ac yn rhoi barn yn unol ag anghenion archwilio Ofwat.
Adran 3 yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol	Adroddiad trylwyr o berfformiad gweithredol y	1. Darparwyr data, eu rheolwyr a chyfarwyddwyr unedau busnes yn

Adran	Disgrifiad	Gweithgareddau Sicrwydd
	busnes o'i gymharu â'r ymrwymadau perfformiad a ddisgrifir yn FD14, gan dynnu sylw at unrhyw gymhelliant sy'n berthnasol yn y flwyddyn.	cynhyrchu a chymeradwyo data, esboniadau a methodoleg a thrywydd archwilio i gefnogi'r perfformiad yr adroddwyd arno ac i ddangos y gwiriadau rheoli a ddefnyddiwyd. 2. Adolygiad y tîm ariannol o'r trywydd gwybodaeth a'r trywydd archwilio. 3. Yr Archwilwyr Technegol yn adolygu'r data a'r sylwadau ac yn rhoi barn i'r Bwrdd
Adran 4 yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol: Tablau rheoleiddiol ychwanegol	Gwybodaeth ariannol ac anariannol ychwanegol, gan gynnwys perfformiad cyfanswm gwariant cyfanwerthol o'i gymharu â rhagdybiaethau FD14 a'r metrigau cost unedol rhyng-gwmniol ill dau, dadansoddiad o gostau gweithredu manwerthu a metrigau ariannol.	1. Darparwyr data, eu rheolwyr a chyfarwyddwyr unedau busnes yn cynhyrchu a chadarnhau data, esboniadau a methodoleg a thrywydd archwilio i gefnogi'r perfformiad yr adroddwyd arno ac i ddangos y gwiriadau rheoli a ddefnyddiwyd. 2. Adolygiad y tîm ariannol o'r trywydd gwybodaeth a'r trywydd archwilio 3. Archwilwyr Ariannol neu Archwilwyr Technegol yn adolygu'r tablau priodol yn unol â'r gweithdrefnau cytunedig.
Adran 5: Y Datganiad Risg a Chydymffurfio	Yn fodd i gwmnïau roi tystiolaeth i gwsmeriaid o'u hatebolrwydd ac i ddangos i Ofwat eu bod yn cydymffurfio â'u gofynion.	1. Penodi unigolion penodol i fod yn gyfrifol am fodloni gofynion trwyddedu, rheoleiddiol a statudol. 2. Ofwat yn darparu canllawiau ar ffurf Canllawiau Cyfrifyddu Rheoleiddiol a Rhybuddion Gwybodaeth. 3. Rheolwr Cydymffurfio DCWW yn paratoi dogfen strategaeth flynyddol i sicrhau y bodlonir holl ofynion Ofwat. 4. Trafod risg bob tro y bydd Gweithrediaeth DC yn cyfarfod 5. Adolygu diweddariad Gweithrediaeth DC ynglŷn â risgiau strategol ym mhob cyfarfod Bwrdd. 6. Archwilwyr technegol i adolygu'r datganiadau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau Ofwat. 7. Y Pwyllgor Archwilio yn cadarnhau 8. Y Bwrdd yn arwyddo.

Cyfiawnhad dros gynnwys y maes hwn yn y Cynllun Sicrwydd Drafft.

Mae hwn yn gyhoeddiad creiddiol sydd, ymysg pethau eraill, yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'n perfformiad o'i gymharu â deilliannau FD14. Mae hwn yn faes allweddol bwysig i'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill ac mae cyfiawnhad yn dal i fod dros ei gynnwys yn ein Cynllun Sicrwydd.

9.2 Mesurau Perfformiad (Cymhelliant i Gyflawni)

Ym mis Ebrill 2015 cyflwynwyd ein Cynllun Cymhelliant i Gyflawni newydd. Mae'n cynnwys cyfres gynhwysfawr o fesurau, ariannol ac anariannol, wedi eu dylunio i'n herio i fodloni gofynion cwsmeriaid ym mhob ffordd ac ar bob achlysur a, lle bo'n briodol, sicrhau y cânt iawndal priodol os nad yw ein gwasanaeth yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig.

Defnyddiwyd y Matrics Effaith a Thebygolrwydd ar gyfer 2017/18 (Atodiad 1) i asesu a oedd angen cynnal gweithgareddau sicrwydd ychwanegol ar unrhyw fesurau neilltuol. Mae Atodiad 1 yn dangos nad oes unrhyw Fesurau Perfformiad ar hyn o bryd yn y parth coch (risg uchel) neu'r parth melyn goch (risg lled-uchel).

Ein bwriad fydd tynnu sylw at gyfleoedd i wella ein fframwaith rheoli ymhellach. Byddwn yn cyflawni hyn drwy weithredu proses y tair llinell sicrwydd a dibynnu ar y rhaglen waith y bydd yr Archwiliwr Technegol yn ei gweithredu fel y disgrifiwyd yn adran 8 o'r ddogfen hon.

Camau rheoli a lliniaru

- Mae cardiau sgorio mewnol yn amlygu perfformiad o'i gymharu â mesurau allweddol yn fisol ym mob agwedd ar y busnes a hyd at lefel Bwrdd.
- Adolygu'r broses gyda'n Grŵp Herio ar ran y Cwsmeriaid sydd â swyddogaeth o ran herio'r ffordd yr ydym ni'n adrodd yn ôl.
- Y Tîm Rheoleiddio yn trefnu pecynnau gwybodaeth a sesiynau hyfforddi ar gyfer pawb sy'n berchen ar ddata. Ynghyd â hyn, bydd yr Archwilydd Technegol yn rhan o'r hyfforddiant.
- Mae Datganiadau Methodoleg mewnol manwl wedi eu datblygu sy'n cynnwys canllaw camwrth-gam ynglŷn â sut y ceir y data, y dylanwadau gwrthbwysol sydd ar waith, unrhyw ragdybiaethau a wnaed ac unrhyw waharddiadau sy'n berthnasol.
- Caiff Datganiadau Methodoleg eu hadolygu a'u sgorio gan yr Archwilydd Technegol.
- Perchennog y data, y rheolwr busnes (lle bo'n briodol) a'r Cyfarwyddwr perthnasol i arwyddo bod y data yn gywir.
- Y Tîm Rheoleiddio yn cynnal cyfarfodydd diwydrwydd dyladwy gyda pherchnogion y data er mwyn adolygu data, y fethodoleg, y perfformiad a'r trywydd archwilio sy'n cefnogi hynny.
- Archwiliad manwl trydydd parti o'r broses gasglu data ac adrodd yn ôl gan ein Harchwilydd Technegol i roi sicrwydd bod modd adrodd yn ddibynadwy ac yn fanwl ar y data a hynny yn unol ag unrhyw ofynion adrodd perthnasol. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau sampl i wirio prosesau, rhagdybiaethau, methodoleg, gweithredu, llywodraethu a chanlyniadau.
- Y Tîm Sicrwydd Busnes mewnol yn cynnal Archwiliad trylwyr o'r fframwaith adrodd.
- Gweithrediaeth Dŵr Cymru i gynnal adolygiad a rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio.
- Cynnwys datganiad o sicrwydd gan y Bwrdd ar gyfer y data perfformiad yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol.

Cyfiawnhad dros gynnwys y maes hwn yn y Cynllun Sicrwydd Drafft

Mae hwn yn faes allweddol bwysig i'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill ac mae cyfiawnhad o hyd dros ei gynnwys yn ein Cynllun Sicrwydd.

9.3 Adrodd Cylchrannol

Roedd 2015/16 yn ddechrau cyfnod newydd o ran rheoli prisiau gyda rheoliadau prisiau gwahanol ar gyfer cyfanwerthu (dŵr a dŵr gwastraff) a manwerthu (preswyl a dibreswyl). Gyda mwy o gystadlu, rydym eisiau sicrhau y gall ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid barhau i fod yn ffyddiog y caiff costau eu hadlewyrchu'n gywir yn y pris a godir arnyn nhw a'u dyrannu'n gywir rhwng cyfanwerthu (dŵr a dŵr gwastraff) a manwerthu (preswyl a dibreswyl).

Roedd ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol yn 2015/16 a 2016/17 yn cynnwys llawer o wybodaeth ariannol wedi ei dadgyfuno, gydag incwm a gwariant yn cael eu nodi mewn cymhariaeth â'r rheolaethau prisiau gwahanol ynghyd ag unedau cyfrifyddu gwahanol. Mae hyn yn dal yn bodoli. Ynghyd â hyn bydd dwy Reolaeth newydd ar Brisiau yn 2020 h.y. Bioadnoddau ac Adnoddau Dŵr. Byddwn, felly, yn parhau i roi pwyslais ar gyflwyno gwybodaeth ariannol yn unol â'r canllawiau rheoleiddiol gofynnol ar adrodd cylchrannol. Bydd y gweithgareddau sicrwydd arfaethedig, sy'n cynnwys gwiriadau sicrwydd allanol a gynhaliwyd gan drydydd parti annibynnol, yn parhau i roi elfen gref o sicrwydd i randdeiliaid ynglŷn â'r ffigyrau yr ydym yn adrodd yn eu cylch.

Camau rheoli a lliniaru

- Deiliaid cyllideb i gynnal adolygiadau misol er mwyn egluro amrywiadau a nodi unrhyw wallau posibl o ran dyrannu arian.
- Gweithrediaeth Dŵr Cymru ac uwch-reolwyr yn adolygu'r cyfrifon rheoli misol.
- Rheolwr Ariannol y Grŵp yn cwblhau ac adolygu rhestr wirio Canllawiau Cyfrifyddu Rheoleiddiol Ofwat.
- Bydd yr Archwilydd Ariannol yn cynnal archwiliad ac yn dod i farn ynglŷn â rheoli prisiau ac adrodd cylchrannol yn Adran 2 o'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol un unol â gofynion rheoleiddio Ofwat.
- Bydd yr Archwilydd Ariannol yn adolygu'r trefniadau cytunedig o ran rheoli prisiau ac adrodd cylchrannol yn y tablau rheoleiddiol ychwanegol yn Adran 4 o'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol.

Gwelliannau a wnaed

- Addaswyd swyddogaeth y Cyfrifydd Ariannol a Rheoleiddiol o fod yn paratoi data i fod yn cydlynu'r gwaith o baratoi data er mwyn sicrhau y caiff deilliannau tîm cyfrifyddu'r rheolwyr eu cyflwyno mewn da bryd a'u hadolygu'n drwyadl. Mae hyn yn sicrhau mwy o reolaeth a sicrwydd.
- Haen ychwanegol o adolygu a chapasiti ychwanegol i ymdrin â gofynion adrodd ychwanegol.
- Wedi datblygu Datganiadau Methodoleg er mwyn darparu canllaw cam wrth gam o ran paratoi pob tabl.
- Mae'r Tîm Cyfrifyddu Rheoleiddiol wedi cyflwyno cyfres o sesiynau hyfforddi ar gyfer Tîm Cyfrifyddu'r rheolwyr i sicrhau bod pawb sy'n gyfrifol am baratoi data ariannol i'w gynnwys mewn adroddiadau rheoleiddiol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau eu hunain a'r Canllawiau Cyfrifyddu Rheoleiddiol perthnasol.

Cyfiawnhad dros gynnwys y maes hwn yn y Cynllun Sicrwydd Drafft

Gan y bydd rheoliadau prisiau newydd yn dod i rym yn 2020 ar gyfer Bioadnoddau ac Adnoddau Dŵr, mae adrodd cylchrannol yn dal i fod yn faes allweddol bwysig i'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid eraill ac, o'r herwydd, mae'n rhan greiddiol o'n fframwaith sicrwydd. Mae cyfiawnhad o hyd dros ei gynnwys yn ein Cynllun Sicrwydd.

9.4 Rhestr Brisiau

Mae gofyn inni gyhoeddi cyfres o gynlluniau prisiau bob blwyddyn yn unol ag Amod Trwydded D a Rheolau Prisiau Ofwat. Mae'r dogfennau hyn yn egluro prisiau'r cwmni am wasanaethau a ddarperir a thelerau ac amodau'r prisiau hynny. Y dogfennau yw:

Rhestr Brisiau – Mae'r ddogfen hon yn egluro prisiau'r cwmni ar gyfer gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth i gwsmeriaid preswyl a di-breswyl.

Dogfen <http://www.dwrcymru.com/en/Company-Information/Regulation-and-Competition/Competition.aspx> **Prisiau Cyfanwerthu** - Mae'r ddogfen hon yn nodi'r prisiau sylfaenol ar gyfer cyflenwi dŵr a gwasanaethau ar raddfa gyfanwerthol i safleoedd cymwys y gellid cyflenwi dŵr iddynt gan ddaliwr trwydded sydd ag awdurdod i gyflenwi dŵr ar raddfa fanwerthu neu fanwerthu cyfyngedig. Mae'r ddogfen hon hefyd yn cynnwys prisiau nad ydynt yn rhai sylfaenol y byddai angen i gwmni sy'n manwerthu dŵr eu talu am wasanaethau amrywiol a ddarperir gan ein busnes cyfanwerthu.

Rhestr Brisiau Gwasanaethau Datblygwyr – Mae'r ddogfen hon yn nodi'r prisiau am gysylltu o'r newydd a gweithgareddau eraill i gefnogi datblygwyr.

Bydd ein prosesau sicrwydd yn parhau i ddatblygu o fewn y fframwaith a'r canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru a chyhoeddir y fframwaith sicrwydd ar gyfer 2018/19 ym mis Ionawr 2018.

Camau rheoli a lliniaru

Mae'r Rhestrau Prisiau i gyd yn dilyn yr un broses sicrwydd:

- Bydd Tîm Cyfreithiol y cwmni yn cynnal cyfres o adolygiadau ar y Rhestrau Prisiau i weld a ydyn nhw'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth briodol.
- Ar ôl cwblhau hyn, caiff pob adran o'r rhestr brisiau ei hadolygu a'i chadarnhau gan y Grŵp Llywio Polisi Prisiau
- Bydd y Bwrdd yn cadarnhau'r prisiau terfynol.
- Caiff modelau prisio eu gwirio'n allanol yn annibynnol o ran sicrwydd a chaiff rheolau ac egwyddorion prisio eu defnyddio'n briodol
- Sicrwydd allanol annibynnol o'r data sy'n cael eu mewnbynnu.

O ran Datganiad Sicrwydd y Rhestr Brisiau, mae'r Bwrdd yn ei arwyddo i gadarnhau'r canlynol:

- Ei fod yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol o ran y prisiau a nodir yn y Rhestr Brisiau.
- Bod effaith y prisiau newydd ar filiau cwsmeriaid wedi ei hasesu ar gyfer amrywiol fathau o gwsmeriaid gwahanol.
- Bod systemau a phrosesau priodol ar waith i sicrhau bod y data a'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhestr Brisiau ac unrhyw wybodaeth ychwanegol yn fanwl-gywir.
- Mae'r cwmni wedi ymgynghori â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr am ei Restr Brisiau mewn modd amserol ac effeithiol.

Gwelliannau a wnaed

- Lluniwyd Llawlyfr ar Gydymffurfio â Phrisiau ar gyfer prisiau 2018/19. Mae'n cynnwys gwybodaeth sy'n dangos cydymffurfiaeth â deddfwriaeth, gofynion o ran y drwydded a rheolau prisiau. Mae'n dangos y broses sicrwydd a ddilynwyd ac yn cynnwys nifer o dablau a ddefnyddiwyd yn y broses i ddangos cydymffurfiaeth ac i ganiatáu sicrwydd.

Cyfiawnhad dros gynnwys y maes hwn yn y Cynllun Sicrwydd Drafft

Mae prisio yn dal yn faes y mae cyfiawnhad dros ei gynnwys yn ein Cynllun Sicrwydd

9.5 Cyhoeddiadau ar y Wefan

Rydym wrthi'n datblygu ein gwefan. Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi nifer o ddogfennau allweddol ar ein gwefan i helpu i roi gwybodaeth i'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid. Y llynedd, wrth ystyried cwmphas ein proses sicrhau data nodwyd hyn fel maes y dylid ei gynnwys yn rhan o'n fframwaith sicrwydd. Rydym yn dal yn credu bod hyn yn wir a'i bod yn bwysig y gall cwsmeriaid a rhanddeiliaid weld ystod helaeth o gyhoeddiadau sydd wedi eu gwirio'n briodol o ran sicrwydd, ac nid dim ond gwybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn ein cyhoeddiadau rheoleiddiol craidd. Dyma faes yr ydym yn dal i ganolbwyntio arno.

Byddwn yn dal i drafod gyda'n rhanddeiliaid allweddol a'r Grŵp Herio ar ran Cwsmeriaid i adolygu'r rhestr o gyhoeddiadau i sicrhau ei bod yn berthnasol. Mae'r cyhoeddiadau yr ydym ni wedi eu cynnwys yn ein hadolygiad i'w gweld isod.

Cyhoeddiad	Disgrifiad	Gweithgareddau lliniarol
Adroddiad Perfformiad Blynnyddol	Gwybodaeth ynglŷn â sut yr ydym wedi perfformio	• Adolygiad y Timau Cyllid / Rheoleiddio • Cysoni data yn yr Adroddiad Perfformiad Blynnyddol a'r Adroddiad Blynnyddol. • Y Pwyllgor Archwilio i Graffu • Y Bwrdd i gadarnhau • Archwiliad a barn annibynnol
Adroddiad a Chyfrifon Blynnyddol	Gwybodaeth sy'n galluogi rhanddeiliaid i asesu perfformiad, model busnes a strategaeth y cwmni	• Wedi ei ddrafftio gan uwch reolwyr gyda Dirprwy Ysgrifennydd y Cwmni yn cydlynu hynny. • Y Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Cwmni yn gweithredu fel golygyddion er mwyn sicrhau cysondeb. • Aelodau o Weithrediaeth Dŵr Cymru i'w adolygu a chynnal proses ddilysu yn cynnwys Archwilydd Ariannol y cwmni. • Pwyllgor Archwilio yn adolygu'r drafft terfynol cyn i'r Bwrdd ei adolygu a'i gadarnhau, a'i anfon at yr Aelodau.
Y Rhestr Brisiau	Gwybodaeth am ein prisiau a'n polisïau presennol	• Y Tîm Cyfreithiol yn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol. • Grŵp Llywio Polisi Prisiau yn cymeradwyo. • Ymgynghori gyda'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr • Cymeradwyaeth y Bwrdd • Archwiliad a barn annibynnol

Cyhoeddiad	Disgrifiad	Gweithgareddau lliniarol
Codau Ymarfer	Manylion am safon y gwasanaeth y gall cwsmeriaid ei ddisgwyl gennym.	- Y Tîm Cyfreithiol yn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol / rheolaethol. - Ymgynghori gyda'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr. - Cyfarwyddwyr yn cymeradwyo. - Anfon y Codau at Ofwat.
Gwybodaeth sylfaenol ar ein dogfennau bilio	Gwybodaeth sylfaenol sy'n cael ei chynnwys gyda biliau cwsmeriaid	- Cydymffurfiaeth gyfreithiol / rheoleiddiol gan y tîm cyfreithiol. - Ymgynghori â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr. - Cymeradwyaeth y Grŵp Llywio Bilio Blynnyddol.
Cyngor Defnyddwyr Dŵr – adroddiadau chwarterol a blynnyddol	Wedi rhoi gwybodaeth i'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr ynglŷn â gwasanaethau cwsmeriaid, cwynion, gollyngiadau, dŵr sy'n llifo i'r cyflenwad a faint mae pob unigolyn yn ei ddefnyddio.	- Os yw data yn deillio o ymrwymïadau perfformio e.e. SIM yn mynd drwy'r broses sicrwydd briodol. - Os nad yw data yn deillio o ymrwymïadau perfformio caiff ei wirio am sicrwydd llinell 2.
Rhannu Data	Rhannu data perfformiad blynnyddol gyda'r diwydiant. Eu cyhoeddi hefyd ar wefan Discover Water.	- Archwilydd Technegol yn cynnal archwiliad annibynnol. - Cysoni â data yr Adroddiad Perfformiad Blynnyddol. - Tîm Rheoleiddio yn gwneud gwaith Diwydrwydd Dyladwy. - Cyfarwyddwr yn arwyddo.

Cyfiawnhad dros gynnwys y maes hwn yn y Cynllun Sicrwydd Drafft

Dyma lle mae ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliad yn cael gwybodaeth am agweddau ar y buses. Gan ein bod hefyd yn datblygu ein gwefan ymhellach, mae hwn yn parhau i fod yn faes y mae cyfiawnhad dros ei gynnwys yn ein Cynllun Sicrwydd.



9.6 Meysydd Newydd wedi eu cynnwys

9.6.1 Data Asesu Costau

Ym mis Ebrill 2017, cyhoeddodd Ofwat Hysbysiad Gwybodaeth a oedd yn egluro ei ddisgwyliadau o ran adrodd blynyddol ar gyfer 2016/17. Roedd yr Hysbysiad yn datgan ei fod yn gofyn i gwmnïau ddarparu gwybodaeth a fydd yn llywio ei asesiad pris o fewn marchnadoedd a'i waith yn gosod prisiau yn y dyfodol. Disgrifiodd 2016/17 fel "blwyddyn bontio" ac er bod gofyn i gwmnïau ddarparu gwybodaeth i Ofwat ar wahân, nid oedd hynny'n rhan o Adroddiadau Perfformiad Blynyddol y cwmnïau. Fodd bynnag, dywedodd Ofwat y dylai cwmnïau yn 2017/18 gyhoeddi a chynnwys eu data Asesu Prisiau yn eu Hadroddiadau Perfformiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno.

Rydym felly wedi mynd ati yn yr un ffordd ag y gwnaethom gyda gweddill yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol, a bydd y data Asesu Prisiau yn mynd trwy'r un broses strwythuredig "tri cham sicrwydd." Dyma hi:

- Yn y llinell sicrwydd gyntaf mae'r rheolwyr yn gyfrifol am nodi risgiau a rheoli'r rhain drwy ddatblygu a chynnal prosesau, systemau a rheolaethau cadarn yng nghwrs naturiol eu gweithgareddau;
- Yn yr ail linell sicrwydd mae'r Tîm Rheoleiddio neu'r Tîm Cyllid yn gyfrifol am ddarparu'r fframwaith a'r drefn lywodraethu ar gyfer adrodd ar reoleiddio; ac
- Yn y drydedd linell sicrwydd bydd gwaith archwilio a sicrwydd annibynnol yn digwydd drwy gyfrwng ein tîm Sicrwydd Busnes, sy'n adolygu'r fframwaith sicrwydd a hefyd yn rhoi sicrwydd seiliedig ar risg ar elfennau unigol. Rydym hefyd yn defnyddio gwasanaethau archwilwyr technol ac ariannol allanol.

Defnyddiwyd y Matrics Effaith a Thebygolrwydd data Asesu Prisiau ar gyfer 2017/18 (Atodiad 2) i benderfynu a oedd angen cyfarwyddo gweithgareddau sicrwydd ychwanegol ar unrhyw setiau data neilltuoel, gan barhau i gynnal ein fframwaith sicrwydd presennol. Mae Atodiad 2 yn dangos nad oes unrhyw setiau data ar hyn o bryd yn y parth coch (risg uchel) nac yn y parth melyn goch (risg lled-uchel).

Yn amodol ar unrhyw adborth a gawn ni gan randdeiliaid, nid ydym yn bwriadu targedu unrhyw setiau data sy'n rhan o'r categori 'isel-canolig' oherwydd credwn fod y fframwaith sicrwydd a ddefnyddiwyd, gan gynnwys yr adolygiad annibynnol gan yr Archwilydd Ariannol / Technol, yn ddigon cadarn.

Camau rheoli a lliniaru

- Y Tîm Rheoleiddio yn trefnu pecynnau gwybodaeth a sesiynau hyfforddi ar gyfer pawb sy'n berchen ar ddata. Ynghyd â hyn, bydd yr Archwilydd Technol yn rhan o'r hyfforddiant.
- Mae Datganiadau Methodoleg mewnol manwl wedi eu datblygu sy'n cynnwys canllaw camwrth-gam ynglŷn â sut y ceir y data, y dylanwadau gwrthbwysol sydd ar waith, unrhyw ragdybiaethau a wnaed ac unrhyw waharddiadau sy'n berthnasol.
- Caiff Datganiadau Methodoleg eu hadolygu a'u sgorio gan yr Archwilydd Technol.
- Perchennog y data, y rheolwr busnes (lle bo'n briodol) a'r Cyfarwyddwr perthnasol i arwyddo bod y data yn gywir.
- Y Tîm Rheoleiddio yn cynnal cyfarfodydd diwydrwydd dyladwy gyda pherchnogion y data er mwyn adolygu data, y fethodoleg, y perfformiad a'r trywyddau archwilio sy'n cefnogi hynny.
- Archwiliad manwl trydydd parti o'r broses gasglu data ac adrodd yn ôl gan ein Harchwilydd Technol i roi sicrwydd bod modd adrodd yn ddibynadwy ac yn fanwl ar y data a hynny yn unol ag unrhyw ofynion adrodd perthnasol. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau sampl i wirio prosesau, ragdybiaethau, methodoleg, gweithredu, llywodraethu a chanlyniadau.

- Y Tîm Sicrwydd Busnes mewnol yn cynnal Archwiliad trylwyr o'r fframwaith adrodd.
- Gweithrediaeth Dŵr Cymru i gynnal adolygiad a rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio.
- Cynnwys datganiad o sicrwydd gan y Bwrdd ar gyfer y data perfformiad yn yr Adroddiad Perfformiad Blyneddol.

Gwelliannau ar y gweill

- Mae rhai o'r gwelliannau ar y gweill (ac a restrir uchod), e.e. mwy o deilwra ar yr hyfforddiant a mabwysiadu diwydrwydd dyladwy ar risg yn rhan greiddiol o'n cynllun gwella parhaus ar gyfer y maes hwn.



9.6.2 Cynllun Busnes Adolygiad Prisiau 2019 ac argymhellion cysylltiedig

Bob pum mlynedd, mae Ofwat yn gosod cyfyngiadau ar y prisiau y gall cwmnïau Dŵr yng Nghymru a Lloegr eu codi ar eu cwsmeriaid. Adwaenir y broses hon fel adolygiad pris. Ar hyn o bryd mae Ofwat yn gweithio ar yr adolygiad pris ar gyfer 2019 (o'r enw PR19) a bydd hyn yn gosod rheolaeth brisiau i gwsmeriaid ar gyfer y cyfnod 2020 tan 2025, h.y. y pris, y buddsoddiad a'r pecyn gwasanaeth y mae cwsmeriaid yn ei gael. Gosodir y cyfyngiadau pris er mwyn galluogi cwsmeriaid i ddarparu'r gwasanaethau sy'n ofynnol ganddynt dros y cyfnod ac maent yn cynnwys caniatáu ar gyfer gwariant cyfalaf ar gyfer cynnal a chadw asedau, gan sicrhau diogelwch y cyflenwad a bodloni gofynion o ran yr amgylchedd a dŵr yfed.

Mae gofyn i bob cwmni gyhoeddi Cynllun Busnes ar gyfer cyfnod yr adolygiad. Caiff y Cynllun Busnes ei gyflwyno i Ofwat ym mis Medi 2018. Cyn y dyddiad hwnnw, byddwn yn rhoi cynllun o weithgareddau sicrwydd ar waith er mwyn adolygu'r ffordd o ddatblygu'r Cynllun Busnes, gan gynnwys meysydd megis Enillion ar Ecwiti Rheoleiddiol (RORE) a Chymhelliant Cyflawni Deilliannau ODI). Bydd y rhaglen hon yn ymestyn i 2018/19.

Yn ei gyhoeddiad Water 2020 (ym mis Mai 2016), cynigiodd Ofwat nifer o argymhellion ychwanegol y mae angen eu gwneud cyn cyhoeddi'r Cynllun Busnes ym mis Medi 2018. Fersiynau drafft yw'r rhain o wybodaeth a gaiff ei chynnwys yn y prif argymhellion ac y mae eu hangen er mwyn galluogi Ofwat i adolygu a rhoi adborth i gwmnïau. O'r herwydd, byddant yn rhwym wrth yr un camau rheoli a lliniaru â'r prif argymhellion. Mae'r argymhellion drafft yn cynnwys y canlynol:

- **Gwerth Cyfalaf Rheoleiddiol (RCV) Bioadnoddau** – Mae angen gwahanu RCV y Gwasanaeth Dŵr Gwastraff fel y gall Ofwat sefydlu rheolaeth orfodol ar gyfer Bioadnoddau ac i hwyluso'r farchnad arfaethedig ar gyfer gwasanaethau bioadnoddau. Mae Ofwat wedi cyhoeddi canllawiau ynglŷn â sut y dylid cyfrifo hyn, a chyflwynwyd yr argymhelliad ym mis Medi 2017.
- **Gwerth Cyfalaf Rheoleiddiol (RCV) Adnoddau Dŵr** – Mae angen gwahanu RCV y Gwasanaeth Dŵr fel y gall Ofwat sefydlu rheolaeth orfodol ar gyfer Adnoddau Dŵr ac i hwyluso'r farchnad arfaethedig ar gyfer Adnoddau Dŵr. Mae Ofwat wedi cyhoeddi canllawiau ynglŷn â sut y dylid cyfrifo hyn, a bydd yr argymhelliad yn cael ei gyflwyno erbyn mis Ionawr 2018.
- **Diffiniadau ymrwymadau perfformiad drafft** – Bydd ein proses sicrwydd yn cynnwys adolygu'r diffiniadau i wneud yn siŵr eu bod yn glir ac yn hawdd eu deall. Caiff y ddogfen ei chyflwyno ym mis Mai 2018.
- **Hawliadau asesu costau cynnar** – Caiff unrhyw hawliadau 'Ffactor Cwmni Penodol' sy'n egluro pam y credwn fod y costau sy'n gysylltiedig â rhannau o'n busnes yn fwy na rhai cwmnïau eraill yn y sector, ynghyd ag unrhyw "fuddsoddiadau annodweddiadol o fawr", eu cyflwyno ym mis Mai 2018.
- **Asesiad perfformiad 2015–20** – Mae Ofwat yn gofyn am asesiad rhagarweiniol o berfformiad y cwmni o'i gymharu â thargedau FD14. Caiff perfformiad hanesyddol (o 2015/16 hyd at 2017/18) a pherfformiad arfaethedig 2018/19 a 2019/20 eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2018 yn unol â'r "Reconciliation Rulebook" a gyhoeddwyd gan Ofwat.

Prosesau rheoli a lliniaru

- Mae Cynllun Busnes cyffredinol PR19 (sy'n cynnwys yr holl ddata a'r wybodaeth gefnogol) wedi dynodi rheolwr cyhoeddi, sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cwmni wedi dilyn yr holl

brosesau sicrwydd ac y bydd y Cynllun Busnes a gyhoeddir ym mis Medi 2018 yn fanwl-gywir, yn hawdd cael gafael arno ac yn hawdd ei ddeall

- Mae tîm prosiect PR19 wedi ei sefydlu sy'n goruchwyllo'r rhaglen PR19 ac yn cyfarfod bob mis. Caiff datblygiad y cynllun ei reoli gan y Grwpiau Rheoli 'Cyfanswm Gwariant' dŵr, dŵr gwastraff a manwerthu, a'i gadeirio gan Gyfarwyddwyr yr adrannau Dŵr, Dŵr Gwastraff a Manwerthu yn eu tro, gyda phob un yn adrodd yn ôl i Weithrediaeth Dŵr Cymru.
- Mae Grŵp Llywio Rheoleiddiol yn bodoli sy'n adolygu'r gofynion rheoleiddio perthnasol ac yn gwneud yn siŵr y'u bodlonir.
- Mae darparwyr data (sy'n darparu'r data) a rheolwyr data (sydd hefyd yn rhoi sêl eu bendith ar y data) wedi eu dynodi ar gyfer pob adran o'r Cynllun Busnes ac maen nhw'n gyfrifol am ddarparu gwybodaeth fanwl-gywir yn unol ag unrhyw ganllawiau a ddarparwyd.
- Bydd Uwch-reolwyr a Chyfarwyddwyr yn adolygu a chymeradwyo'r wybodaeth a gynhwysir yn y cyhoeddiad.
- Mae'r Archwilydd Technegol yn darparu sicrwydd annibynnol allanol ac mae'n cadarnhau bod y data yn fanwl-gywir a, lle bo'n berthnasol, bod yr argymhelliad wedi ei ddatblygu yn unol â'r canllawiau a roddwyd. Bydd yr Archwilydd Ariannol hefyd yn rhoi barn ar yr agweddau ariannol perthnasol ar y Cynllun Busnes.
- Caiff Datganiad o Sicrwydd y Bwrdd ei ddarparu i gadarnhau bod yr holl ofynion sicrwydd ar gyfer y Cynllun Busnes wedi eu bodloni.

Gwelliannau ar y gweill

- Bydd gennym gynllun sicrwydd ar gyfer argymhelliad PR19 yn ei gyfanrwydd a fydd hefyd yn cynnwys unrhyw wybodaeth PR19 y byddwn yn ei chyflwyno i Ofwat cyn ei gyhoeddi mis Medi 2018.



9.6.3 Gwybodaeth am y Farchnad Bioadnoddau

Mae Ofwat yn dymuno hyrwyddo datblygiad y farchnad ym maes gweithgareddau bioadnoddau (a adwaenir hefyd fel slwtsh) gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaethau ar lai o gost, gwneud y defnydd gorau o adnoddau, gwella cydnerthedd a darganfod ffyrdd arloesol newydd o wneud pethau. Mae modd i gyfleoedd o'r fath fod yn sail, yn fodd ac yn gymhellant i fod yn effeithlon ac arloesol er budd cwsmeriaid, yr amgylchedd a'r gymdeithas ehangach.

Mae gwybodaeth am y farchnad o ran lle y cynhyrchir bioadnoddau ac ansawdd y data yn allweddol i gefnogi'r farchnad Bioadnoddau cyn belled ag y bo hynny'n helpu i hyrwyddo ac annog datblygiad effeithlon y farchnad a mynediad effeithlon iddi.

Er mwyn caniatáu i gyrff trydydd parti nodi cyfleoedd yn y farchnad a thrwy hynny hwyluso trafodaethau, mae'n rhaid i gwmnïau gyhoeddi gwybodaeth am y farchnad bioadnoddau mor aml ag y mae angen, yn eu tyb nhw. Ond mae'n rhaid diweddarau hyn yn flynyddol o leiaf. Mae'n rhaid rhyddhau'r cyhoeddiad blynyddol erbyn 31 Gorffennaf bob blwyddyn ac mae'n rhaid i'r cyhoeddiad cyntaf ymddangos cyn 31 Gorffennaf 2018. Diben ein gweithgareddau sicrwydd yw cyhoeddi gwybodaeth y gall rhanddeiliaid fod ag ymddiriedaeth a ffydd ynddi ac sy'n hawdd ei darllen a'i deall.

Camau rheoli a lliniaru

- Mae darparwyr data a rheolwyr data penodol yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth fanwl-gywir yn unol â'r canllawiau a ddarparwyd. Penodwyd rheolwr cyflwyno er mwyn sicrhau y nodir pob darparwr data a rheolwr data, ac y cyflwynir y gwaith o fewn yr amserlenni perthnasol ac yn unol â gofynion a chanllawiau.
- Mae uwchreolwyr penodol yn adolygu a chadarnhau'r wybodaeth yn y ddogfen gyhoeddedig. Yna bydd cydweithiwr yn adolygu'r wybodaeth a chaiff y cyhoeddiad ei gyflwyno.

Gwelliannau ar y gweill

- Bydd yr Archwilydd Technegol yn rhoi sicrwydd annibynnol allanol i gadarnhau bod data 2017/18 yn fanwl-gywir ac yn unol â'r canllawiau cyhoeddedig.



9.6.4 Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a Gwybodaeth am y Farchnad

Yn y misoedd nesaf byddwn yn cyhoeddi ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr ar gyfer 2018, ac yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru fel rhan o'r broses.

Mae rheidrwydd cyfreithiol ar gwmnïau i baratoi Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr ac mae'n rhaid iddyn nhw nodi sut y bwriadant gynnal y cydbwysedd rhwng cyflenwad dŵr a'r galw amdano. Mae'n rhaid i'r cynllun edrych ymlaen yn y tymor hir (o leiaf 25 mlynedd).

Yn sgil dadansoddiad yn 2015/16 ac ymgynghoriad a oedd â'r nod o edrych ar sut i reoleiddio'r gwaith o hyrwyddo marchnadoedd adnoddau dŵr, nododd Ofwat bod cwmnïau trydydd parti sydd â diddordeb mewn darganfod cyfleoedd newydd o ran adnoddau dŵr, gollyngiadau a rheoli galw, yn wynebu rhwystrau dirifedi o'u cymharu â chwmnïau dŵr sydd eisoes yn gweithredu. Gyda'r bwriad o fynd ati i leihau'r rhwystrau a nodwyd, mae gofyn i gwmnïau wneud yr wybodaeth sydd ganddyn nhw yn fwy gweladwy a hygyrch, gan gynnwys rhagdybiaethau allweddol a data allweddol sy'n sail i adnoddau dŵr a phrosesau cynllunio cwmnïau dŵr gweithredol.

Er mwyn cymell cwmnïau trydydd parti i ymwneud â'r maes, mae'n rhaid i gwmnïau sy'n gweithredu yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru gyhoeddi gwybodaeth am y farchnad ar ffurf drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ochr yn ochr â fersiwn ddrafft nesaf eu Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr ym mis Mawrth 2018. Mae angen i gwmnïau sicrhau hefyd bod yr wybodaeth a gyhoeddir am y farchnad sy'n deillio o'r Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr drafft yn cael ei diweddarau pan lunnir fersiynau terfynol y Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr. Yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol Gweinidogion Llywodraeth Cymru, byddwn yn cyhoeddi ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr terfynol ym mis Chwefror 2019. Mae Ofwat yn gofyn i gwmnïau ddiweddarau'r wybodaeth am y farchnad fel ei bod yn cyfateb i'r Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr terfynol o fewn mis i'w gyhoeddi. Diben ein gweithgareddau sicrwydd yw cyhoeddi gwybodaeth y gall rhanddeiliaid fod ag ymddiriedaeth a ffydd ynddi ac sy'n hawdd ei darllen a'i deall.

Camau rheoli a lliniaru

- Proses sicrhau ansawdd amlhaenog o ran datblygu'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a data cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys monitro ansawdd y llinellau data unigol drwy gyfrwng ymgynghorwyr allanol ac adolygiad staff DCWW, adolygiad cydweithwyr o brosesau data a sicrhau ansawdd ein prosesau yn gyffredinol drwy gyfrwng archwiliad allanol.
- Defnyddir ymgynghorwyr fframwaith allanol i ddatblygu a chynhyrchu'r rhan fwyaf o'r data am y cyflenwad a'r galw am y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr e.e. ystyriaethau ynghylch faint o ddŵr sydd ar gael, toriad yn y llif neu'r gwahaniaeth rhwng galw a chyflenwad. Mae gan ein hymgyngorwyr eu prosesau sicrwydd eu hunain i sicrhau bod y data'n gadarn, a bydd DCWW wedyn yn adolygu a chadarnhau'r wybodaeth hon.
- Mae'r Archwilydd Technegol yn gwneud archwiliad annibynnol o'n prosesau ac yn adolygu'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym ni a'n partneriaid o ran y cydrannu hynny o'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr y nodwyd eu bod yn risg uchel. Mae hyn yn amlygu'r risgiau posibl o ran cydymffurfio â chanllawiau'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr ac yn ystyried sut mae ein prosesau drafft yn y Cynllun hwnnw yn gydnaws ag egwyddorion arweiniol y Llywodraeth ac â blaenoriaethau Ofwat ar gyfer Adolygiad Prisïau 2019. Y prif gwestiynau a ofynnwyd oedd:
 - A ydym wedi dangos dealltwriaeth dda o'r Canllawiau Cynllunio Adnoddau Dŵr a dogfennau cysylltiedig?

- A oedd y prosesau a ddefnyddiwyd yn gyson â'r Canllawiau Cynllunio, gydag unrhyw wroddi wrth hynny wedi ei egluro a'i gyfiawnhau?
- A oedd y cynllun yn adlewyrchu'n ddigonol egwyddorion arweiniol Llywodraeth Cymru a themâu allweddol Ofwat ar gyfer Adolygiad Prisiau cydgysylltiedig 2019? ac
- A yw'r prosesau a ddefnyddir yn cynnwys lefelau priodol o sicrwydd ansawdd?

- Datblygwyd systemau coladu ar gyfer rhagolygon galw a chydbwysedd cyflenwad a galw gan ymgynghorwyr allanol ac mae cydweithwyr wedi cynnal adolygiadau arbenigol mewnol. Mae'r system adrodd hon yn defnyddio data sydd wedi eu harchwilio ac yn cynhyrchu'n awtomatig y tablau data sydd eu hangen gan reoleiddwyr. Mae'r system adrodd hon wedi cael ei hadolygu gan gydweithwyr.

Mae perthynas agos rhwng y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr ac adrodd am ddata marchnata, ac mae'r prosesau lliniaru a restrir uchod yn berthnasol i'r ddau i'r un graddau.

Gwelliannau ar y gweill

- Caiff y Cynllun ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus llawn ym mis Mawrth 2018 ac erbyn mis Medi 2018 byddwn yn cynhyrchu fersiwn ddrafft wedi ai hadolygu o'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr sy'n ystyried yr adborth a ddaeth i law.



9.6.5 Adrodd Ariannol Statudol

Mae paratoi cyfrifon statudol yn ofyniad cyfreithiol ac rydym ni hefyd yn cyhoeddi datganiadau ariannol dros dro fel sy'n ofynnol yn ôl ein Cytundeb o Delerau Cyffredin gyda buddsoddwyr. Yn rhan o Adroddiad a Chyfrifon Blynnyddol ein grŵp rydym yn nodi ein strategaeth, ein trefn lywodraethu a'n perfformiad, ac mae hyn wedi ei osod yng nghyd-destun ein hamcanion strategol. Rydym hefyd yn adrodd ar ganlyniad ein hasesiad cydnerthedd ariannol yn ein datganiad hyfywedd hirdymor.

Caiff ein Hadroddiad a'n Cyfrifon Blynnyddol eu cyhoeddi ar ein gwefan bob blwyddyn ym mis Gorffennaf, a'n Datganiadau Dros Dro ym mis Tachwedd.

Camau rheoli a lliniaru

- Mae ein cyfrifwyr yn gwneud y gwaith cyfrifyddu beunyddiol sy'n cynnwys cynnal a chadw'r systemau cyfrifyddu a'r cysoni ddiwedd y mis.
- Mae perchnogion a rheolwyr data yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth fanwl-gywir yn unol â'r canllawiau rheoleiddio a chyfrifyddu statudol diweddaraf.
- Mae archwiliwyr ariannol, sy'n gweithio yn unol â'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol, yn adolygu'r wybodaeth a gyflwynir yn ein cyfrifon statudol ac yn rhoi eu barn annibynnol ar yr archwiliad ynghylch a yw'r wybodaeth honno yn gywir ac yn deg yn seiliedig ar ei chydymffurfiaeth â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a Deddf Cwmnïau 2006.
- Mae'r adolygiad gan Weithrediaeth Dŵr Cymru yn cael ei anfon i'r Pwyllgor Archwilio, ynghyd â diweddariadau.
- Y Bwrdd yn rhoi sêl eu bendith cyn cyhoeddi.

Gwelliannau ar y gweill

- Mae adolygiad blynnyddol o bolisiau cyfrifyddu wedi ei drefnu ar gyfer mis Chwefror 2018 er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â newidiadau i'r fframwaith cyfrifyddu a'n gallu i gydymffurfio ag unrhyw newidiadau yn y dyfodol.



9.6.6 Cyfoeth Naturiol Cymru – Tablau Cydymffurfio (MD109)

Yn ystod y cyfnod rheoli prisiau yn 2010-15, parhaodd Ofwat i fonitro perfformiad cwmnïau o ran cyflawni canlyniadau a darparu rhaglenni gwella drwy gyfrwng yr hyn a adwaenid bryd hynny fel Ffurflen Mehefin a chyflwyniadau MD109. Er y bu cynnydd yng ngweithdrefnau monitro Ofwat, rydym yn parhau i dderbyn adroddiad o'r math MD109, sef y "Tablau Cydymffurfio" fel y gelwir hwn bellach. Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n gyfrifol am gwblhau'r Tablau Cydymffurfio blyneddol ond mae'r wybodaeth sydd yn y tablau yn seiliedig ar ddata a gynhyrchwyd gan DCWW.

Mae'r Tablau Cydymffurfio yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad ein gweithfeydd trin carthffosiaeth yn erbyn eu trwydded gwaredu. Mae trwydded gan bob gwaith trin carthffosiaeth a roddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru sy'n rheoli ansawdd y dŵr gwastraff y caniateir i'r cwmni ei ryddhau i afonydd a dyfroedd arfordirol. Mae'r tablau hefyd yn cynnwys manylion am unrhyw achosion o lygredd.

Mae manylder a chyflawnder yr wybodaeth yn y Tablau Cydymffurfio yn bwysig i Gyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn benodol ond hefyd i gwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill yn gyffredinol ac mae hyn yn cyfiawnhau ei chynnwys yn y ddogfen hon.

Camau rheoli a lliniaru

Cydymffurfiaeth Dŵr Gwastraff

- Caiff manylion am gyfyngiadau niferoedd trwydded Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd eu cynnwys yng Nghronfa Ddata Ansawdd DCWW.
- Nid yw'r rhaglen samplu gweithredu hunan-fonitro yn weledol i staff gweithredol sy'n gyfrifol am berfformiad all-lif.
- Mae cyfres o ddogfennau a chanllawiau ar gael i staff yn System Reolaeth Integredig DCWW.
- Mae'r staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'n proses hunan-fonitro yn rhydd o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl gan eu bod yn adrodd i Bennaeth Busnes gwahanol.
- Canlyniadau samplu yn cael eu dadansoddi gan labordai annibynnol ac achrededig gan Wasanaethau Achredu'r Deyrnas Unedig.
- Methiannau yn y samplu yn cael eu hadrodd yn awtomatig o'r Gronfa Ddata Ansawdd.
- Y cwmni yn gwneud gwiriadau cysoni awtomatig a bwriadol i sicrhau bod setiau data Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a DCCWW yn gywir.
- Cyfarfodydd cyswllt rheolaidd rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd a DCCWW.
- Uwch-reolwr yn cymeradwyo data diwedd y flwyddyn â Chyfoeth Naturiol Cymru
- Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig yn cynnal archwiliad annibynnol blyneddol o brosesau DCWW.
- Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynnal archwiliad blyneddol o'r system reoli hunanfonitro gweithredol
- Sicrwydd Busnes yn cynnal archwiliad blyneddol o'r technegwyr samplu a'r System Reoli.

Llygredd

- Cofnodi'r achosion o lygredd yn system Cynllun Gweithredu Strategol DCWW.
- Cysoni cyson rhwng y system Cynllun Gweithredu Strategol a System Cofnodi Digwyddiadau Cenedlaethol Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Trafodaethau cyswllt ffurfiol ac anffurfiol â Chyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi sicrwydd am fanylder a dosbarthiad y data am lygredd.

- Rhoi rhagor o sicrwydd gyda datblygiad canllawiau staff o ran dosbarthiad a diffiniad achlysuron o lygredd wedi eu diffinio yng ngweithdrefnau'r System Reoli Integredig
- Gweithdrefnau wedi eu datblygu er mwyn cofnodi a rhoi gwybod am achosion o lygredd gydag elfen o fapio cynnydd yn ofynnol ac wedi ei ddarparu drwy gyfrwng System Reoli Integredig
- Gwirio'r System Cofnodi Digwyddiadau Cenedlaethol ar ddiwedd y flwyddyn yn unol ag amserlen Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Pennaeth Asedau Dŵr Gwastraff yn cymeradwyo'r ffurflen ddrafft i'w dychwelyd at Gyfoeth Naturiol Cymru

Gwelliannau ar y gweill

- Cyflwyno system newydd i ddisodli'r Gronfa Ddata Ansawdd ym mis Mai 2018.
- Grŵp Llywio dan arweiniad Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Dŵr Gwastraff wedi bodoli ers peth amser er mwyn goruchwyllo gweithrediad y system newydd.
- Mae'r Grŵp Llywio yn adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Bwrdd Newid a Systemau, sydd o dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Gweithredol.



9.6.7 Perfformiad, Arferion a Pholisïau Talu

Mae'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) yn amlinellu yn ei adroddiad ym mis Hydref 2017 bod miloedd o fusnesau yn profi beichiau gweinyddol ac ariannol dirfawr dim ond oherwydd na chânt nhw eu talu mewn pryd. Mae taliadau hwyr yn fater allweddol i sefydliadau, yn enwedig busnesau llai, oherwydd gall gael effaith negyddol ar eu llif arian a pheryglu eu gallu i fasnachu. Yn yr achosion gwaethaf, gall taliadau hwyr arwain at fethdaliad.

Mae rheoliadau a wnaed o dan adran 3 o Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 (ac, o ran partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig, Ddeddf Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig 2002), yn rhoi dyletswydd ar gwmnïau mwyaf y DU ac ar bartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig i adrodd bob chwe mis ar eu perfformiad, polisïau a gweithdrefnau talu ar gyfer blyneddoddi ariannol yn dechrau ar, neu ar ôl, 6 Ebrill 2017. Rhaid cyhoeddi'r wybodaeth drwy wasanaeth ar lein y mae'r llywodraeth yn ei ddarparu, a bydd ar gael i'r cyhoedd.

Rydym felly wedi cynnwys y maes hwn yn ein Datganiad o Risgiau, Cryfderau a Gwendidau a Chynllun Sicrwydd Drafft 2017/18 i ymgynghori ymhellach arno a chael barn ynghylch a ddylid cynnwys y maes hwn yn ein Cynllun Sicrwydd Terfynol.

Camau rheoli a lliniaru

- Caiff systemau a gweithdrefnau ariannol eu cyflunio i sicrhau y gallwn ni dalu pob anfoneb gymeradwy yn unol â'n telerau talu cytunedig.
- Caiff rhestrau o anfonebau dyledus eu cylchredeg ymhlith rheolwyr llinell a'r rheini sy'n caffael gwasanaeth i sicrhau pob pawb perthnasol yn eu gweld.

Gwelliannau ar y gweill

- Rydym yn gwella ein systemau er mwyn ei gwneud hi'n haws i'r rheini sy'n caffael gwasanaethau neu nwyddau gadarnhau eu bod wedi eu derbyn ac er mwyn sicrhau bod rheolwyr llinell yn ymwybodol mewn digon o amser o unrhyw oedi.

10 CAMAU NESAF

Mae'n bwysig ein bod yn cael barn rhanddeiliaid wrth i'r gwaith o gwblhau'r Cynllun Sicrwydd dynnu at ei derfyn. Yn y cyfamser, rydym yn parhau i drafod gyda rhanddeiliad allweddol yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn ac rydym ar gael i gyfarfod neu i drafod unrhyw agwedd ar yr ymgynghoriad hwn.


Nid ydym yn cyfyngu ymgynghori i'r rhanddeiliaid hynny a nodwyd ac mae croeso i ymatebion gan gwsmeriaid ac unrhyw rhanddeiliaid eraill.

Mae croeso ichi ymateb i'r ymgynghoriad hwn erbyn diwedd y diwrnod busnes ar **12 Ionawr 2018**. Byddwn yn ystyried y sylwadau a ddaw i law a bwriadwn gyhoeddi ein Cynllun Sicrwydd Terfynol cyn diwedd mis Mawrth 2018.



ATODIAD 1 Matrics Risg Effaith a Thebygolrwydd – Mesuriadau Perfformiad


Cyf	Mesur Perfformiad MoS	Risg
A1a	Dŵr Yfed Diogel % cydymffurfiaeth samplau	
A1b	Cydymffurfiaeth Gymedrig Ardal Dŵr Yfed Diogel	
A2	I ba raddau yr ydym yn dderbyniol i gwsmeriaid	
A3	Dibynadwydd y cyflenwad	
B1	Tynnu dŵr i'w ddefnyddio	
B2	Trin dŵr gwastraff	
B3a	Atal achosion llygredd Cat 1,2 & 3	
B3b	Atal achosion llygredd Cat 3 yn unig	
C1	Ymateb i newid hinsawdd	
C2	Ôl-troed carbon	
D1	Mecanwaith Cymhelliant Gwasanaeth	
D2	Gwasanaeth i gwsmeriaid bregus	
D3	Eiddo lle cafwyd llifogydd yn ystod y flwyddyn	
D4a	Bodlonrwydd cwsmeriaid di-breswyl %	
D4b	Sgôr bodlonrwydd cwsmeriaid di-breswyl	
D5	Ennill ymddiriedaeth cwsmeriaid	
E1	Biliau fforddiadwy	
E2	Cymorth i gwsmeriaid dan anfantais	
F1	Rhwyddineb trin asedau dŵr/gwastraff	
F2	Gollyngiadau	
F3a	Cydnerthedd asedau (Dŵr)	
F3b	Cydnerthedd asedau (Gwastraff)	
G1	Digwyddiadau H&S RIDDOR	
G2	Yn gymwys i gyflawni'r swyddogaeth	
H2	Ariannu effeithlonrwydd – graddfa gredyd	
SC1	Dyled ddrwg	
SC2	Sgôr hyrwyddwr net	
SC3	Cwynion	



ATODIAD 2 Matrics Risg Effaith a Thebygolrwydd – Tablau Asesu Cost

Cyf	Tablau Asesu Cost	Risg
1	Gwariant DC yn ôl uned busnes	
2	Gwariant DC yn ôl diben	
2.1	Gwariant cronnus DC yn ôl diben	
3	Adnoddau DC	
4	Triniaeth DC	
5	Dosbarthiad DC	
6	Eiddo a phoblogaeth DC	
7	DC - arall	
8	Gwariant DGC yn ôl uned busnes	
9	Gwariant cyfalaf ychwanegol DGC yn ôl diben	
9.1	Gwariant cyfalaf cronnus ychwanegol DGC yn ôl diben	
10	Gwariant gweithredu DGC. – Trin Carthffosiaeth	
11	Gweithfeydd trin carthffosiaeth mawr DGC	
12	Eiddo a Phoblogaeth DGC.	
13	Rhwydwaith Dŵr Gwastraff	
14	Gwasanaeth Dŵr Gwastraff – Amrywiadau esboniadwy posibl	
15	Slwtsh DGC	
16	Proses trin slwtsh a llwybr gwaredu	
17	DGC - arall	
18.1	DC – Gwariant gweithredol arall	
18.2	DC - arall	
18.3	DGC Gwariant gweithredol arall	
18.4	Slwtsh - arall	
19	Manwerthu	
20	Cyfraddau Dŵr Gwastraff Cyfanwerthol awdurdodau lleol	
21	Costau a ddaeth i'n rhan oherwydd sefydlu marchnad manwerthu NH	

DC – Dŵr Cyfanwerthol, DGC– Dŵr Gwastraff Cyfanwerthol



ATODIAD 3 Matrics Risg Effaith a Thebygolrwydd – Gweithgareddau Eraill

Cyf	Gweithgareddau Eraill	Yn cael ei dargedu
1	Adroddiad Perfformiad Blynnyddol	Ydy
2	Gwasanaethau Datblygu	Nac ydy
3	Adrodd Cylchrannol	Ydy
4	Marchnad Manwerthu Busnes	Nac ydy
5	Cynllun Taliadau	Ydy
6	Cyhoeddiadau ar y wefan	Ydy
7	Cynllun Busnes Adolygiad Prisiau 2019 a chyflwyniadau cysylltiedig	Ydy
8	Gwybodaeth Marchnata Bioadnoddau	Ydy
9	Cynllun Rheolaeth Adnoddau Dŵr a Gwybodaeth Farchnata	Ydy
10	Adrodd Ariannol Statudol	Ydy
11	Tablau Cydymffurfio Cyfoeth Naturiol Cymru (MD109)	Ydy
12	Perfformiad, Arferion a Pholisiau Talu (BEIS)	Ydy

